
# Adroddiad Blynyddol 2022-23

# Cynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol 2022-27

# Cyngor Dinas Casnewydd



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# Cynnwys


1 RHAGAIR ........................................................................................................ 5
2 CEFNDIR ........................................................................................................ 6
2.1 Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ........................................................................ 6
2.2 Cynllun Newid yn yr Hinsawdd 2022-27 ............................................................. 6
2.3 Sut cafodd y cynllun ei ddatblygu? ................................................................... 6
2.4 Amcanion y cynllun .......................................................................................... 6
2.5 Themâu Cyflawni Allweddol ............................................................................... 7
2.6 Cyflawni'r Cynllun ............................................................................................ 7
3 DATBLYGU CYNLLUNIAU GWEITHREDU BLWYDDYN 2 .................................................. 7
4 PERFFORMIAD ................................................................................................... 8
4.1 Thema 1: Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol ............................................... 9
4.2 Thema 2: Ein Hadeiladau ................................................................................. 11
4.2. Thema 3: Ein Tir .............................................................................................. 14
4.4 Thema 4: Trafnidiaeth a Symudedd .................................................................. 18
4.5 Thema 5: Y Nwyddau a’r Gwasanaethau rydyn ni’n eu Caffael .............................. 21
4.6. Thema 6: Ein Rôl Ehangach .............................................................................. 23
5. ADRODD AM GARBON YN FLYNYDDOL ................................................................ 27
5.1 Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol ........................................................... 28
5.2 Ein Hadeiladau ................................................................................................ 29
5.3 Ein Tir ............................................................................................................ 30
5.4 Trafnidiaeth a Symudedd ................................................................................. 31
5.5 Y Nwyddau a’r Gwasanaethau a Gyrchwn ........................................................... 32
5.6 Ein Rôl Ehangach ............................................................................................ 33
6 ATODIAD A - CYNLLUNIAU GWEITHREDU 2022/23 ................................................... 34
6.1 Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol ........................................................... 34
6.2 Ein Hadeiladau ................................................................................................ 37
6.3 Ein Tir ............................................................................................................ 39
6.4 Trafnidiaeth a Symudedd ................................................................................. 42
6.5 Y Nwyddau a’r Gwasanaethau a Gyrchwn ........................................................... 51
6.6 Ein Rôl Ehangach ............................................................................................ 53
7 ATODIAD B - CYNLLUNIAU GWEITHREDU 2023/24 ................................................... 61
7.1 Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol ........................................................... 61

7.2 Ein Hadeiladau ........................................................................................................62
7.3 Ein Tir ....................................................................................................................64
7.4 Trafnidiaeth a Symudedd ..............................................................................................66
7.5 Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gyrchwn ............................................................................67
7.6 Ein Rôl Ehangach ........................................................................................................68
8 ATODIAD C – RHESTR TERMAU ............................................................................................70

# 1 RHAGAIR

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol Cyngor Dinas Casnewydd.

Newid yn yr hinsawdd yw'r her fyd-eang fwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar bob un ohonom, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef gyda'n gilydd. Fel corff cyhoeddus mawr, mae gennym ddyletswydd i leihau ein hôl troed carbon. Mae'r Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd, ac y byddwn yn eu cymryd, dros y pum mlynedd nesaf wrth i ni weithio tuag at fod yn garbon niwtral erbyn 2030.



*Y Cynghorydd Jane Mudd*
*Arweinydd y Cyngor*

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o ddeuddeg mis o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 ac yn nodi ein cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r cynllun. Mae hefyd yn tynnu sylw at rai astudiaethau achos allweddol ym mhob un o'n meysydd blaenoriaeth strategol ac yn cynnwys y cynlluniau gweithredu newydd sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24.

Ymhlith yr uchafbwyntiau penodol ar gyfer eleni ceir gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer yn Ysgol Gyfun Caerllion a'r Ganolfan Pwll a Tenis Ranbarthol; 4 ysgol newydd yn cael paneli solar trwy ein partner ynni cymunedol Egni; a gosod paneli solar a goleuadau LED yn y Llyfrgell Ganolog, yr Amgueddfa a'r Oriel Gelf.

Fe wnaethom hefyd agor ein pont teithio llesol newydd yng Ngorsaf Drenau Casnewydd i alluogi mwy o deithiau ar draws y ddinas ar feic neu ar droed. Mae'r bont hefyd yn cynnwys nodweddion draenio trefol cynaliadwy sy'n helpu i liniaru'r perygl o lifogydd yn y ddinas drwy ddal dŵr glaw a'i ddargyfeirio i blanwyr.



*Y Cynghorydd Yvonne Forsey*
*Yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth*

Rydym hefyd wedi cyflwyno mwy o gerbydau trydan i'n fflyd, gyda bron 20% o'n cerbydau bellach yn drydan. Rydym wedi gosod 21 o fannau gwefru cyhoeddus ledled y ddinas gan gynnwys 9 man gwefru ar y stryd i gefnogi preswylwyr nad oes ganddynt barcio oddi ar y stryd.

Rydym hefyd wedi cymryd camau eraill i ymgorffori camau newid hinsawdd yn ein proses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys:

- Cynnwys gweithredu newid hinsawdd yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-27 — Rydym am i Gasnewydd fod yn ddinas sy'n ceisio diogelu a gwella ein hamgylchedd wrth leihau ein hôl troed carbon a pharatoi ar gyfer dyfodol cynaliadwy a digidol.
- Cyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon i'n haelodau ac uwch reolwyr a chyflawni statws Achrediad Efydd o'r Prosiect Llythrennedd Carbon
- Penodi Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bio-amrywiaeth, y tro cyntaf i Gasnewydd benodi Aelod Cabinet gyda'r portffolio penodol hwn

Er ein bod yn cydnabod bod cyflawni niwtraliaeth carbon yn daith sylweddol o'n blaenau, rydym yn ymfalchïo yn y camau rydym eisoes wedi'u cymryd ac yn edrych ymlaen at y llwybr sydd o'n blaenau gyda brwdfrydedd. Ein nod yw bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ein cyflawniadau ac yn eich cymell i gymryd camau ystyrlon yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

# 2 CEFNDIR

Mae Cynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol Cyngor Dinas Casnewydd yn rhedeg o 2022-27. Dyma ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23.

## 2.1 Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddodd y Cyngor Argyfwng Ecolegol a Hinsawdd a nododd y byddai cynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol clir yn cael ei ddatblygu, mewn ymgynghoriad â'n dinasyddion.

## 2.2 Cynllun Newid yn yr Hinsawdd 2022-27

Ym mis Mawrth 2022, cytunodd Cabinet y Cyngor ar ein Cynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol ar gyfer 2022-27 sy'n nodi'r themâu, y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r cerrig milltir arfaethedig y mae angen i ni eu cyflawni fel Cyngor dros y pum mlynedd nesaf i:

- Fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030.
- Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gennym i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas i fod yn sero-net ac i ymaddasu i newid hinsawdd.

Mae hon yn ddogfen allweddol i'r Cyngor a bydd yn siapio mesurau lliniaru'r Cyngor a'i daith i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd dros y pum mlynedd nesaf. Mae animeiddiad yn rhoi trosolwg o'r cynllun.

## 2.3 Sut cafodd y cynllun ei ddatblygu?

Sefydlwyd Bwrdd Newid yn yr Hinsawdd i arwain ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun. Roedd staff a rheolwyr o bob rhan o'r Cyngor yn rhan o'r gwaith o lunio drafft ymgynghori o'r Cynllun gan ddefnyddio'r Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio fel fframwaith.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2021. Adolygwyd yr ymatebion i gyd, a diwygiwyd y cynllun yn unol â hynny.

## 2.4 Amcanion y cynllun

Mae'r Cynllun yn nodi'r themâu, y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r cerrig milltir y mae angen i ni eu cyflawni fel Cyngor dros y pum mlynedd nesaf i:

- ***Fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030.***
- ***Cynnal adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir gennym i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas i fod yn sero-net ac i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.***

## 2.5 Themâu Cyflawni Allweddol

Er mwyn cyflawni ein cynllun, cafodd chwe thema gyflawni eu nodi, yn debyg i'r rhai yn y Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio.

Y themâu cyflawni yw:

| Thema 1 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol | | | | |
| Thema 2 | Thema 3 | Thema 4 | Thema 5 | Thema 6 |
| Ein Hadeiladau | Ein Tir | Trafnidiaeth a Symudedd | Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gyrchwn | Ein Rôl Ehangach |

Mae'r themâu cyflawni i gyd yn rhyngddibynnol ac mae ganddynt berthynas gydgysylltiedig a gorgyffyrddol gyda Thema 1 fel thema gyffredinol.

## 2.6 Cyflawni'r Cynllun

Sefydlwyd chwe is-grŵp i reoli'r gwaith o gyflawni prosiectau sy'n ymwneud â'r Cynllun. Mae pob grŵp yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Strategol neu Bennaeth Gwasanaeth ac mae swyddogion perthnasol yn mynychu o ystod o wahanol wasanaethau. Mae'r is-grwpiau'n cyfarfod bob tri mis i drafod cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ar gyfer eu thema benodol ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ac arfer gorau.

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd hefyd, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a mynychwyd ef gan Gadeiryddion y chwe thema, yn ogystal â chynrychiolaeth gan ein tîm Cysylltiadau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd yn cynghori ar faterion strategol sy'n ymwneud â pholisi newid yn yr hinsawdd o fewn y Cyngor ac yn rheoli perfformiad y cynlluniau gweithredu ar gyfer y chwe thema.

Gellir gweld cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu Blwyddyn 1 ar gyfer pob un o'r chwe thema fel atodiad i'r adroddiad hwn.

# 3 DATBLYGU CYNLLUNIAU GWEITHREDU BLWYDDYN 2

Roedd yn bwysig i ni adnewyddu a diwygio'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2 y Cynllun am nifer o resymau. Yn gyntaf, roedd datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) Casnewydd (cynllun ledled Casnewydd) yn rhoi gwahaniaeth llawer cliriach rhwng camau gweithredu a fyddai'n cefnogi ein datgarboneiddio fel sefydliad, a fyddai'n dod o dan y Cynllun Sefydliadol, a chamau gweithredu a fyddai'n cefnogi datgarboneiddio'r ddinas ehangach, a fyddai'n dod o dan y CYAL. Yn ail, gwnaethom nodi bod angen i graidd y Cynllun symud o ganolbwyntio ar gamau a oedd yn cefnogi

codi ymwybyddiaeth a datblygu prosesau a pholisïau cyffredinol a fyddai'n cefnogi ein datgarboneiddio sefydliadol i ganolbwyntio ar brosiectau penodol a fyddai'n cael effaith fesuradwy ar ein hallyriadau. Yn drydydd, gwerthfawrogwyd bod Cynlluniau Gweithredu Blwyddyn 2 yn gyfle i resymoli a symleiddio'r camau gweithredu i wella'r broses o adrodd ar berfformiad, yn enwedig yn sgil symud i MiHub ar gyfer adrodd.

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i adolygu rhai o'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â phob thema, gan ddileu rhai themâu (yn enwedig y rhai sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol â'r CYAL), ychwanegu rhai a diwygio rhai eraill yn sgil ein profiad o gyflawni Cynlluniau Gweithredu Blwyddyn 1.

Effeithiwyd yn arbennig ar y thema Rôl Ehangach gan y newidiadau a ddaeth yn sgil datblygu'r CYAL. Fel y gwelir yn Atodiad A, mae'r rhan fwyaf o'r meysydd blaenoriaeth o fewn y thema hon naill ai wedi cael eu symud i themâu eraill (fel yn achos Llifogydd, sydd bellach wedi'i symud i'r thema Tir gan y credwyd bod mwy o botensial i gydweithio â'r grŵp hwn) neu eu dileu yn gyfan gwbl (er enghraifft yn achos Creu Lleoedd a Rheoli Adeiladu a fydd bellach yn cael eu hystyried o dan y CYAL).

Mae Bwrdd y Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd hefyd wedi argymell dileu Cynlluniau Gweithredu o'r Cynllun Sefydliadol. Bydd Cynlluniau Gweithredu Blwyddyn 2 ar gael i'r cyhoedd o hyd, ond mae eu dileu o gorff y Cynllun ei hun yn golygu nad oes angen diwygio'r Cynllun yn flynyddol.

Gellir gweld Cynlluniau Gweithredu Blwyddyn 2 ar gyfer y chwe thema fel atodiad i'r adroddiad hwn.

# 4 PERFFORMIAD

Er bod gwybodaeth fanylach am y gwahanol gamau gweithredu fel rhan o Gynllun Gweithredu 22/23 wedi'i chynnwys yn Atodiad 1, mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed ar gyfer pob thema gyflawni, gan gynnwys enghreifftiau a phrosiectau penodol i dynnu sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r prif feysydd blaenoriaeth i weithio arnynt yn ystod 23/24.

Allwedd:

| **Lliw**[1] | Disgrifiad |
|---|---|
| | Cynnydd yn erbyn y thema / blaenoriaeth, ar y trywydd iawn o gymharu â'r disgwyliadau (dim problemau) |

[1] Bydd trothwyon i ddiffinio'n glir y cynnydd yn erbyn pob thema/blaenoriaeth yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| (amber) | Gwnaed cynnydd yn erbyn y thema / blaenoriaeth, ond ar ei hôl hi gyda rhai agweddau |
| (red) | Nid oes cynnydd yn erbyn y thema / blaenoriaeth wedi'i wneud eto, ar ei hôl hi yn sylweddol o gymharu â'r disgwyliadau ym mhob un neu'r rhan fwyaf o feysydd. Mae'r prosiect mewn perygl. |

## 4.1 Thema 1: Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

| | | |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth 2030** | ***Bydd yr argyfwng hinsawdd a natur wrth wraidd ein holl waith. Yn ein penderfyniadau, byddwn yn cymryd camau cadarnhaol i leihau effeithiau hinsawdd ac ecolegol. Byddwn yn arwain drwy esiampl ac yn grymuso ein partneriaid, cymunedau ac unigolion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur.*** | **M** |
| **Blaenoriaethau** | **Ymddygiad a Modelau Rôl:** Bydd ein haelodau etholedig a'n gweithlu yn cael eu hannog a'u cefnogi i ystyried eu cyfraniad unigol at fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, a bydd arweinwyr yn modelu disgwyliadau'r Cyngor. | **M** |
| | **Perfformiad a Llywodraethu:** Bydd ein swyddogaethau democrataidd a chorfforaethol yn ymrwymedig i fod yn garbon sero-net erbyn 2030, a bydd ein penderfyniadau, ein fframwaith llywodraethu a'n monitro perfformiad yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. | **M** |
| | **Hyrwyddo ac Ymgysylltu:** Rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i gynnydd a chyflawniadau i ymgorffori dyheadau i fod yn garbon sero-net erbyn 2030. | **M** |
| | **Ymrwymiad Ariannol:** Cynllunio ar gyfer effeithiau ariannol newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod ein cynllunio ariannol tymor canolig i hirdymor yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon lle bo hynny'n bosibl | **M** |

Mae'r cynnydd yn erbyn y thema hon wedi bod yn dda ar y cyfan, ond mae rhai camau allweddol nad ydynt wedi'u cwblhau eto (newidiadau i dempled yr adroddiad, gwella cyfathrebu mewnol ac allanol a chadarnhau'r model cyllido ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni) sy'n golygu mai Melyn yw'r cynnydd cyffredinol yn erbyn y thema. Fodd bynnag, fel y gwelir o'r enghreifftiau penodol isod, mae cynnydd rhagorol wedi'i wneud ar hyfforddiant, y cynllun corfforaethol a'r rhwydwaith staff, ynghyd â gwelliant mwy cyffredinol o ran gwelededd ystyriaethau Newid yn yr Hinsawdd o fewn y Cyngor cyfan.

## 4.1.1 Y diweddaraf ar brosiectau

### *A. Aelod Cabinet*

Ym mis Mai 2022, yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol, cyhoeddwyd y Cabinet newydd, gyda'r Cynghorydd Yvonne Forsey yn cael ei phenodi'n Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth. Dyma'r tro cyntaf i Gasnewydd benodi Aelod Cabinet gyda'r portffolio penodol hwn ac mae'n dangos y graddau y mae'r Weinyddiaeth yn ystyried Newid yn yr Hinsawdd a rôl y Cyngor wrth ymateb iddo o ddifrif. Mae'r Aelod Cabinet wedi bod yn eiriolwr allweddol dros bolisi Newid yn yr Hinsawdd ar draws y Cyngor ac mae ei chynrychiolaeth ar lefel y Cabinet wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei gynrychioli'n briodol yn y broses o wneud penderfyniadau.

### *B. Hyfforddiant ac Achrediad Llythrennedd Carbon*

Mae hyfforddiant llythrennedd carbon yn darparu ymwybyddiaeth o gostau ac effeithiau carbon deuocsid o ran gweithgareddau bob dydd a'r wybodaeth i alluogi unigolion, cymunedau a sefydliadau i leihau eu hallyriadau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a holl Aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaeth wedi ymgymryd â hyfforddiant Llythrennedd Carbon yn ogystal â thros hanner ein haelodau etholedig.

Rydym yn falch iawn ein bod wedi derbyn Statws Achredu Efydd gan y Prosiect Llythrennedd Carbon ac rydym yn bwriadu gweithio tuag at statws Achredu Arian, a fydd yn golygu cyflwyno'r hyfforddiant yn llawer ehangach ar draws y sefydliad. I gefnogi hyn, mae cydweithwyr yn ein Tîm Dysgu Oedolion wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno’r sesiynau, a fydd yn ein galluogi i ddarparu hyfforddiant am gost llawer is, yn ogystal â gallu cefnogi sefydliadau cymunedol sy'n dymuno cwblhau'r hyfforddiant.

### *C. Cynllun Corfforaethol*

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, cynhaliodd y Cyngor waith helaeth i ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd am y 5 mlynedd nesaf. Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, buom yn ymgysylltu â swyddogion drwy gyfres o weithdai i ddeall ein blaenoriaethau ni a blaenoriaethau ein dinasyddion a'n busnesau dros y 10 i 20 mlynedd nesaf. Ar draws y pum gweithdy, ystyriwyd y cyfleoedd a'r risgiau amgylcheddol ac ecolegol a sut y byddant yn effeithio ar y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau a dinasyddion yn y ddinas. Yn ogystal, drwy ddatblygu'r cynllun Newid yn yr Hinsawdd, roeddem hefyd yn gallu integreiddio gwaith ymgysylltu a datblygu'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd.

Drwy'r gwaith hwn, integreiddiodd y Cynllun Corfforaethol flaenoriaethau ei Gynllun Newid yn yr Hinsawdd, yn benodol o fewn Amcan Lles 2 Amgylchedd a Seilwaith y ddinas ac Amcan Lles 4 Cyngor Cynhwysol, teg a chynaliadwy. O fewn yr amcanion hyn mae gennym nifer o flaenoriaethau strategol sy'n canolbwyntio ar ein gwaith allanol i gyfoethogi a diogelu amgylchedd ecolegol Casnewydd, a'r

gwaith mewnol i Gyngor Casnewydd gyflawni ei darged Newid yn yr Hinsawdd i fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mae'r holl waith hwn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Cynllun Corfforaethol yma.

*Ch. Rhwydwaith Staff*

Un o'r camau allweddol yn y thema Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol oedd sefydlu Rhwydwaith Staff Newid Hinsawdd i annog aelodau staff o bob gwasanaeth i gyfrannu at ddatblygu polisi ac ymarfer Newid Hinsawdd a darparu fforwm i unigolion â diddordeb ddilyn prosiectau y tu allan i'w rolau o ddydd i ddydd.

Cyfarfu'r Rhwydwaith am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2023 ac mae wedi penodi Cadeirydd ac Is-gadeiryddion. Mae'r Rhwydwaith eisoes wedi datblygu a lansio Arolwg Teithio staff a fydd yn darparu data hanfodol bwysig i helpu i ddatgarboneiddio teithiau cymudo ein staff a theithio busnes.

### 4.1.2 Y Camau Nesaf

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y thema hon dros y 12 mis nesaf yw:

- Diweddaru templedi adrodd a chyllido i annog a hyrwyddo pobl i gynnwys newid yn yr hinsawdd/datgarboneiddio fel ffactor wrth wneud penderfyniadau
- Ymwreiddio llythrennedd carbon/newid yn yr hinsawdd mewn darpariaeth hyfforddi ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys darparu hyfforddiant/e-ddysgu gorfodol
- Datblygu cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd i sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â staff a'r cyhoedd

## 4.2 Thema 2: Ein Hadeiladau

| | | |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth 2030** | ***Sicrhau ynni carbon sero-net a chefnogi'r adferiad natur ar draws ein hadeiladau erbyn 2030*** | **M** |
| **Blaenoriaethau** | **Adeiladau Newydd y Cyngor:** Pob adeilad newydd i fod yn garbon sero-net. | **M** |
| | **Ôl-osod Adeiladau:** Ôl-osod trylwyr i sicrhau ein bod yn creu adeiladau ynni carbon sero-net. | **M** |
| | **Gwres Adnewyddadwy:** Gosod systemau gwres adnewyddadwy mewn adeiladau newydd. | **M** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Nwy Naturiol:** Ymrwymiad i leihau’n sylweddol neu ddileu gwres nwy naturiol yn ein holl adeiladau. | M |
| | **Rhesymoli Adeiladau:** Archwilio asedau’r presennol i ddeall eu heffaith carbon hirdymor gyda'r nod o’u defnyddio'n well yn strategol. | M |

Mae datgarboneiddio ein hadeiladau yn parhau i fod yn un o'r materion mwyaf o ran lleihau ein hallyriadau sefydliadol. Gwnaed cynnydd cychwynnol da yn y maes hwn, ond mae'r heriau ariannu yn sylweddol ac mae oedran ac amrywiaeth ein hystâd yn golygu bod datgarboneiddio gwres yn fater penodol gan fod y gwaith ôl-osod y byddai ei angen mewn rhai safleoedd, i'w gwneud yn addas ar gyfer defnyddio Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer, yn helaeth. Mae'r argyfwng ynni hefyd wedi cael effaith enfawr yn y maes hwn gan ei fod wedi newid yr achosion busnes yn ddramatig ar gyfer defnyddio Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn adnoddau staff yn y maes hwn, gyda'r tîm Lleihau Carbon yn mynd o 2.2 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar ddechrau'r flwyddyn i 5.2 erbyn hyn, a fydd yn caniatáu i'r tîm gefnogi mwy o brosiectau dros y flwyddyn i ddod.

### 4.2.1 Y diweddaraf ar brosiectau

#### *A. Ynni Solar Co-op*

Mae Egni Co-op yn datblygu ynni solar ar doeau yng Nghymru ac mae ganddi dros 4.5MWp o gapasiti ar 88 o safleoedd, gan gynnwys ysgolion, adeiladau cymunedol a busnesau ac mae hefyd yn darparu allgymorth addysgol i ysgolion. Maent wedi darparu cymorth cynnal a chadw ar gyfer nifer o safleoedd ledled Casnewydd yn flaenorol, gan gynnwys Ysgol Gyfun Basaleg, Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Gynradd Eveswell, Canolfan Ailgylchu Maesglas a Felodrom Geraint Thomas, ac yn parhau i wneud hynny. Eleni maent wedi gosod y canlynol ar draws ein hystâd:

- Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon - 35kWp
- Ysgol Gynradd Alway - 55kWp
- Ysgol Gynradd Llanmartin - 56kWp
- Ysgol Gynradd Sain Silian (Estyniad) - 30kWp

Mae hyn wedi cymryd cyfanswm nifer adeiladau CDC sydd â system ffotofoltäig solar i 39.

Mae Egni Co-op hefyd yn hwyluso'r rhaglen, *Rydym yn Ymladdwyr Ynni* mewn 5 ysgol CDC. Mae'r prosiect yn ennyn diddordeb disgyblion mewn newid yn yr hinsawdd a dysgu sut i leihau ein defnydd o ynni. Trwy gyfres o weithdai dwyieithog, maent yn cael eu grymuso i gymryd camau i leihau'r defnydd o ynni. Mewn partneriaeth ag Energy Sparks, gall ysgolion ddadansoddi ac ymchwilio i'w data ynni a solar drwy'r platfform addysgol hwn a chymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol i ddod yn fforwyr, dadansoddwyr, ditectifs a gwneuthurwyr newid!

## B. Rhaglen Rhesymoli Asedau

Nod y rhaglen rhesymoli asedau yw gwneud y defnydd gorau o ystâd y Cyngor, rhyddhau derbyniadau cyfalaf o asedau dros ben a gwneud y defnydd gorau o gyllidebau cynnal a chadw cyfyngedig. Cefnogir hyn gan ymrwymiadau o fewn y Cynllun Corfforaethol a Chynllun Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae bwrdd y prosiect wedi datblygu set o egwyddorion i gefnogi'r penderfyniadau yn y rhaglen hon, ac ar gyfer ein cynllun rheoli asedau parhaus. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn nodi amcanion craidd y rhaglen o fewn y Cynllun Rheoli Asedau Strategol newydd 2023-2027 a bydd yn cynnwys:

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn gosod gwerth cymdeithasol, tegwch a chynaliadwyedd wrth ei wraidd:

- Dylai Asedau CDC fod yn addas at y diben, yn y lleoliad cywir, yn cael eu meddiannu gan y gwasanaethau cywir ac yn cael eu darparu gan y timau cywir
- Rhaid i ni ddeall anghenion ein cymunedau; drwy ymgynghori ac ymgysylltu i ddeall lle y gallai fod angen asedau arnom yn y dyfodol
- Byddwn yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a deallusrwydd, a fydd yn sbardun sylfaenol ar gyfer unrhyw gynigion rhesymoli asedau. Mae'n rhaid i ni fabwysiadu eglurder a chysondeb drwy ddull a gefnogir gan ddata cadarn.
- Rhaid i asedau a ddargedwir redeg mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan neilltuo cyllidebau priodol, gweithio gyda'n partneriaid a bodloni gofynion Cynllun Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor.
- Rhaid diogelu rhwymedigaethau asedau dyfodol CDC wrth waredu asedau a bydd penderfyniadau yn ystyried gwerth cymdeithasol e.e. drwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT), prydles ac ati.

## C. Goleuadau LED

Yn ystod 2022/2023, bu Tîm Lleihau Carbon Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio gyda Newport Norse i osod Goleuadau LED ar draws 8 safle, gan gynnwys 4 ysgol uwchradd a 4 ysgol gynradd, gan arbed 125.4 tunnell $CO_2e$ o garbon bob blwyddyn gyda'i gilydd. Mae hyn gyfwerth â thua 3% o gyfanswm yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag allyriadau trydan CDC o Adeiladau.

Gweithredwyd y cynlluniau hyn i arbed refeniw, lleihau carbon i gefnogi ymrwymiadau newid hinsawdd y Cyngor, lleihau'r costau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â goleuadau safle, lleihau llwytho trydanol ar y safle, a gwella ansawdd a phrofiad defnyddwyr yr ysgolion.

Cafodd y prosiectau eu cychwyn gan y Tîm Lleihau Carbon ac fe'u datblygwyd ar y cyd â Newport Norse. Cafodd y goleuadau eu gosod gan Newport Norse a'u contractwyr dibynadwy.



*1. Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer yn Ysgol Gyfun a Chanolfan Tennis a Nofio Ranbarthol Caerllion*

Yn dilyn gosodiadau gwres carbon isel yn 2021/2022, sicrhaodd CDC £510,000 o gyllid Grant Gwres Carbon Isel pellach i ôl-osod pympiau gwres ffynhonnell aer i safleoedd presennol i leihau'r defnydd o nwy ac felly allyriadau carbon.

*2. Dyluniadau Gwres Carbon Isel*

Gwnaed ddyluniadau gwres carbon isel ar 12 o safleoedd gan ragweld ceisiadau am Grant Llywodraeth Cymru yn 2023/2024.

*3. Rhaglen REfit*

Cychwyn Rhaglen REfit gwerth £2 miliwn, gan ddarparu mesurau datgarboneiddio ar draws 14 o safleoedd. Disgwylir iddi gael ei chwblhau ddiwedd 2023/2024.

### 4.2.2 Y Camau Nesaf

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y thema hon dros y 12 mis nesaf yw:

- Rhaglen Rhesymoli Asedau – cefnogi gwaith Bwrdd y Rhaglen Rhesymoli Asedau i sicrhau bod datgarboneiddio yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau wrth benderfynu ar ddefnydd yr ystâd yn y dyfodol
- Cynhyrchu amcangyfrif cost ar gyfer datgarboneiddio'r ystâd
- Defnyddio'r Polisi Adeiladau Newydd i nodi'r safonau gofynnol ar gyfer adeiladau newydd
- Drafftio a mabwysiadu polisi ynni gweithredol i gefnogi effeithlonrwydd ynni

## 4.2. Thema 3: Ein Tir

| | | |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth 2030** | *Dinas sy'n rheoli ac yn cynyddu ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ddiogelu, cyfoethogi, gwella a chysylltu'r amgylchedd naturiol mewn modd carbon niwtral a chyfrifol o ran yr hinsawdd.* | G |
| **Blaenoriaethau** | **Ecosystem Wydn:** Adfer, creu a chysylltu bioamrywiaeth a chynefinoedd yn gynaliadwy trwy wella tir sy'n eiddo i'r Cyngor a thir cyhoeddus. | M |
| | **Coed a Choetir:** Gwella iechyd pobl, ansawdd yr amgylchedd, lleihau a dal carbon drwy reoli a chynyddu coed a choetir Casnewydd yn gynaliadwy. | G |
| | **Mannau Gwyrdd Trefol:** Cynyddu seilwaith gwyrdd y tir cyhoeddus dinesig i leihau anghydraddoldebau amgylcheddol, er buddion lluosog adferiad natur, iechyd a lles pobl, addasu'r hinsawdd, lliniaru llifogydd, lleihau carbon a darparu aer glân. | G |

| | | |
|---|---|---|
| | **Tir ar Brydles y Cyngor:** Cefnogi adferiad natur a lleihau allyriadau carbon o dir fferm y mae'r Cyngor yn berchen arno ac unrhyw dir arall sydd ar brydles. | M |

Bu cynnydd cadarnhaol iawn yn y thema hon, gyda phlannu coed a datblygu Seilwaith Gwyrdd yn ddau lwyddiant nodedig, fel y gwelir yn yr astudiaethau achos isod. Wrth symud ymlaen, rydym yn edrych i gymryd ymagwedd llawer mwy strategol tuag at ddatblygu ein hasedau tir, gyda chefnogaeth y Rhaglen Rhesymoli Asedau (gweler uchod) a'r camau allweddol y cyfeirir atynt isod, yr Archwiliad Newid yn yr Hinsawdd i asesu potensial ein tir ar gyfer datblygiadau megis plannu coed, ffermydd solar, amddiffynfeydd llifogydd, Seilwaith Gwyrdd, ac ati.

## 4.3.2. Y diweddaraf ar brosiectau

### *A. Dinas Coed y Byd*

Mae Casnewydd wedi derbyn statws Dinas Coed y Byd, rhaglen sy'n cael ei chynnal gan Sefydliad Arbor Day a Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r rhaglen yn ymdrech ryngwladol i gydnabod dinasoedd a threfi sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod eu coedwigoedd a'u coed trefol yn cael eu cynnal yn gywir, eu rheoli'n gynaliadwy, a'u dathlu'n briodol.

Cafodd y Cyngor ei gydnabod am ei reolaeth o stoc goed y ddinas. Mae hyn yn cynnwys cael polisïau ar waith ar gyfer cynnal coed, yn ogystal â'i waith yn rheoli effaith clefyd coed ynn, sydd wedi effeithio ar goed mewn nifer o safleoedd yn y ddinas.

Cafodd y Cyngor hefyd ei gydnabod am ei seremonïau plannu canopi gwyrdd yn ôl ym mis Mawrth 2022. Gwahoddwyd pob ysgol yn y ddinas i blannu coeden fel rhan o ddathliadau'r jiwbilî platinwm ar gyfer y Frenhines Elizabeth II, gyda seremonïau arbennig yn cael eu cynnal mewn pum ysgol.

Cafodd rhodfa o goed eu plannu ym Mharc Tredegar hefyd, gydag 80 o goed yn cael eu gosod ochr yn ochr â'r llwybr teithio llesol sy'n mynd drwy'r parc.

### B. Casnewydd sy'n Caru Gwenyn – Nid yw natur yn daclus



Mae Casnewydd wedi derbyn achrediad Dinas sy'n Caru Gwenyn swyddogol gan Lywodraeth Cymru. Dros y 4 blynedd diwethaf mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n rheoli ei ymylon ffordd, glaswelltiroedd a mannau gwyrdd. Mae wedi cynyddu'r ardal a reolir ar gyfer bioamrywiaeth o un flwyddyn i'r llall, gyda chefnogaeth Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cymru a chymryd rhan mewn mentrau fel Dim Torri ym Mai ac Nid yw Natur yn Daclus. Mae Nid yw Natur yn Daclus yn brosiect Grid Gwyrdd Gwent sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio ar draws Awdurdodau Gwent Fwyaf, y camau y gallwn oll eu cymryd i'w cefnogi, a sut y gall y rhain gael effaith gadarnhaol ar faterion pwysig eraill megis lleihau'r dirywiad mewn bywyd gwyllt arall a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ar hyn o bryd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn rheoli 45 hectar o laswelltir ar gyfer bioamrywiaeth gan gynnwys lleoliadau fel Man Agored High Cross, Gwarchodfa Natur Leol Allt-yr-ynn a 19 Hills Ringland, ac oddeutu 30 hectar o laswelltir eraill fel ymylon ffordd a mannau gwyrdd bach mewn ardaloedd preswyl.

### C. Seilwaith Gwyrdd

Yn dilyn nifer o brosiectau peilot y llynedd i ddatblygu prosiectau Seilwaith Gwyrdd (SG) ledled y Ddinas, gan gynnwys comisiynu asesiad i leoliadau addas ar gyfer SG yng nghanol y ddinas, llwyddodd Cyngor Casnewydd i wneud cais, mewn cydweithrediad â Chyfoeth Naturiol Cymru, o Gronfa Cydweithio Asedau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyluniadau manwl am bedwar datblygiad o astudiaeth ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd (SG) Canol y Ddinas - Charles Street, Hill Street, George Street Bridge Approach West CC10 a Riverside Walkway, ac mae Riverside Walkway yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae gwyrddio a gwell plannu yn arwain at fanteision lluosog, i economi gynaliadwy ymhlith eraill. Mae Seilwaith Gwyrdd yn cynyddu bioamrywiaeth, mae o fantais i iechyd a lles pobl, mae'n helpu i oeri'r ddinas gan liniaru effaith 'ynys wres', ac yn gwneud y ddinas yn fwy deniadol yn weledol gan ddenu mwy o bobl i fusnesau canol y ddinas.

### D. Prosiect Dyfrgwn Casnewydd

Wedi'i ariannu gan Grid Gwyrdd Gwent, rydym wedi bod yn gweithio gydag arbenigwr lleol ar ddyfrgwn i wella a gwarchod dyfrgwn ar hyd darn o un o'n hafonydd (lleoliad gwarchodedig). O dan arweiniad CNC a'n harbenigwr, fe wnaethon ni ddiogelu'r glannau drwy ychwanegu coed chwip a choed, a dewis 2 leoliad i adeiladu gwaliau dyfrgwn. Yn hytrach na gwaliau plastig neu goncrit oedd ar gael i'w prynu, defnyddiwyd pren o goed a gwympwyd yn ddiweddar ar ffurf boncyffion gwag gan y byddai hwn yn strwythur solet da bron wedi'i greu o flaen llaw gan natur. Ar ôl eu hadeiladu, cuddiwyd y tyllau, a gwnaed gwaith pellach i ddiogelu'r ardal a'i hamddiffyn rhag aflonyddwch gan gerddwyr a chŵn.

### 4.2.3 Y Camau Nesaf

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y thema hon dros y 12 mis nesaf yw:

- Archwiliad Newid Hinsawdd ar gyfer ein portffolio tir – nodi addasrwydd ein holl asedau tir ar gyfer system solar ffotofoltäig, plannu coed, atal llifogydd, ailwylltio, ac ati.
- Plannu 5,000 o goed
- Seilwaith gwyrdd – gwelliannau i ganol y ddinas drwy gyflwyno seilwaith gwyrdd mewn pum lleoliad
- Parciau poced – datblygu tri safle parc poced
- Datblygu Strategaeth Draenio Dinesig Cynaliadwy (SDCau)

## 4.4 Thema 4: Trafnidiaeth a Symudedd

| | | |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth 2030** | ***Dinas sy'n cynnig dewisiadau teithio iach a chynaliadwy i bobl*** | **M** |
| **Blaenoriaethau** | Allyriadau'r Cyngor<br>1. **Milltiroedd Busnes (Llwyd) a Chymudo Staff:** Lleihau allyriadau carbon gan gymudo gweithwyr a milltiroedd llwyd, drwy annog gweithio ystwyth, teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn.<br>*2.* **Fflyd:** Lleihau allyriadau carbon y Cyngor drwy symud i fflyd cerbydau allyriadau isel iawn. | **M** |
| | Rôl Ehangach<br>1. **Rhwydwaith Trafnidiaeth:** Rheoli'r rhwydwaith trafnidiaeth i alluogi pobl i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. CMG (Gwyrdd)<br>2. **Cynllunio Defnydd Tir a Chreu Lleoedd:** Sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael o'r cychwyn cyntaf ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith gwefru trydan. CMG (Melyn)<br>3. **Teithio Llesol:** Lleihau allyriadau carbon drwy flaenoriaethu teithio llesol ar draws y ddinas. CMG (Melyn)<br>4. **Trafnidiaeth Gyhoeddus:** Annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na'r defnydd o geir. CMG (Gwyrdd)<br>5. Seilwaith Pwyntiau Gwefru: Cynyddu capasiti gwefru ar draws y ddinas. CMG (Gwyrdd)<br>6. Ysgolion: Lleihau allyriadau carbon o deithio o'r cartref i'r ysgol. Melyn<br>7. Tacsis: Gweithredu polisïau i gefnogi'r symud i fflyd tacsis allyriadau isel. (Coch) | **M** |

Mae'r cynnydd yn y thema Trafnidiaeth wedi bod yn dda ond, fel yn achos y thema Adeiladau, mae'r heriau mwyaf o'n blaenau, o safbwynt sefydliadol (mae'r rhan fwyaf o'r 'ffrwythau ar y canghennau isel' ar gyfer trydaneiddio'r fflyd eisoes wedi'u hel, gan adael y newidiadau mwy cymhleth a/neu gostus) ac i'r Ddinas yn ei chyfanrwydd, fydd yn cael sylw drwy'r CYAL (y prosiectau seilwaith a newid ymddygiad sy'n ofynnol i leihau allyriadau mewn ffordd ystyrlon). Mae datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan wedi bod yn llwyddiant arbennig eleni, ac mae rhagor o gyllid ar gael i ni gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd nesaf.

### 4.4.1 Y diweddaraf ar brosiectau







#### *A. Peiriannau a Cherbydau Fflyd*

Ar hyn o bryd, mae CDC yn berchen ar 48 o geir a faniau, y mae 30 ohonynt yn gwbl drydanol (62.5%). Yn ogystal, rydym yn llogi 31 o geir a faniau, ac mae 100% ohonynt yn gwbl drydanol.

#### *B. Teithio Llesol*

Drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, mae nifer o brosiectau teithio llesol newydd wedi'u cyflawni i gynyddu argaeledd llwybrau beicio a cherdded o ansawdd da ar draws y ddinas.

Mae cyflwyniad y prosiect wedi canolbwyntio ar feysydd lle dangosir y galw am ymyrraeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn yn aml yn pwysleisio diffyg darpariaeth o ansawdd da i gerddwyr a beicwyr i ffwrdd o ffyrdd prysur a chroesfannau cyffyrdd. Mae'r galw hwn, a gefnogir gan ganlyniadau ymgynghoriadau blaenorol ar y rhwydwaith teithio llesol, yn dangos y potensial i fynd i'r afael â'r materion drwy ddarparu llwybrau drwy barciau a mannau agored. Mae'r dull hwn yn gwella'r ymdeimlad o ddiogelwch, yn creu amgylchedd mwy dymunol i'r defnyddiwr a gall hefyd ddarparu llwybrau mwy uniongyrchol o'u cymharu â dewisiadau eraill ar y ffordd.



Mae'r bont newydd yn **Devon Place** yn darparu cysylltedd llawer gwell i gerddwyr a beicwyr sy'n symud rhwng gogledd a de canol y ddinas. Yn flaenorol, roedd y llwybr cysylltu rhwng y ddwy gyrchfan yn cael ei wasanaethu gan danffordd oedd yn anaddas i'r diben. Mae'r bont yn cysylltu ardal y Gold Tops a Queens Hill â chanol y ddinas heb fod angen defnyddio'r danffordd. Agorodd y bont eleni, ac mae wedi'i hadeiladu i safonau teithio llesol, gan alluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn, beicwyr a cherddwyr i'w defnyddio'n hawdd. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys palmentydd gwell o amgylch yr orsaf drafnidiaeth ac mae'n ymgorffori nodweddion draenio cynaliadwy sy'n dal dŵr glaw a'i ddargyfeirio i'r blychau plannu sydd newydd gael eu gosod.

Mae gwaith gwella arwyneb yng **Nghamlas Malpas a Betws,** i ddod â'r llwybr yma i safon teithio llesol ar hyd y rhan o'r gamlas rhwng Porth Gwastad a'r ffin â Thorfaen, wedi'i gwblhau.

Cafodd goleuadau a meinciau eu gosod ar hyd llwybr **Bryngaer Croes Trelech** gan gwblhau'r prosiect hwn.

Ar ôl sawl rownd o ymgynghoriadau cyhoeddus, mae’r adolygiad o'r mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wedi ei gwblhau ac mae'r map diweddaraf o lwybrau teithio llesol (llwybrau presennol ac arfaethedig) a’r adroddiad terfynol wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd y llwybrau map yn cael eu defnyddio i gynllunio datblygiadau teithio llesol yn y dyfodol dros y pum mlynedd nesaf a gwnaed cais am gyllid yn seiliedig ar y cynlluniau hyn ar gyfer cyflawni prosiectau yn 2023/24.

### *C. Fferm Solar yng Nghanolfan Gwastraff y Cartref Docksway*

Mae astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau ar gyfer aráe paneli solar 1.5MW yng nghanolfan gwastraff y cartref Docksway. Mae Western Power Distribution wedi cytuno i gysylltu ac mae caniatâd cynllunio ar y gweill. Pan gaiff ei adeiladu, bydd yr aráe hon yn darparu pŵer ar gyfer yr hyb gwefru yn Docksway sy'n gwefru ein fflyd o gerbydau sbwriel trydan.

### *D. Mannau Gwefru*





Mae ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan drafft allan ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf. Aeth mannau gwefru cyflym preswyl ar y stryd yn fyw mewn naw lleoliad ar draws Casnewydd y llynedd, gan dargedu ardaloedd â chyfraddau parcio oddi ar y stryd isel. Mae 12 o fannau gwefru ychwanegol wedi'u gosod mewn meysydd parcio cymunedol at ddefnydd ymwelwyr a phreswylwyr gyda chefnogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae 13 o safleoedd eraill y Cyngor wedi’u galluogi ar gyfer gwefru cerbydau trydan. Yn olaf, rydym wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu 15 o fannau gwefru ar y stryd a hybiau gwefru ym Maes Parcio Ffordd y Brenin a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd yn 2023/24.

### *E. Trafnidiaeth Gyhoeddus*

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi parhau i gefnogi'r newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a lleihau effaith trafnidiaeth ar yr hinsawdd.

Mae darparu seilwaith safleoedd bysus o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn denu defnyddwyr posibl. Yn dilyn cais llwyddiannus am Grant Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru, rydym wedi caffael 30 o lochesau eraill, gan gynnwys 11 lloches sy'n gyfeillgar i wenyn. Rydym hefyd wedi caffael 60 o ddangosfeydd Amserlen Electronig, fydd yn cael eu gosod yn fuan. Yn unol â'n polisi i ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n bosibl, mae'r llochesau a'r dangosfeydd electronig yn cael eu pweru gan ynni’r haul.

Yn ogystal, lansiodd Cyngor Dinas Casnewydd ei gynllun £6.3m o gyllid Grant Bysus Trydan gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth i weithredwyr er mwyn cynyddu'r defnydd o fysus trydan yn y ddinas. Er bod cyllid wedi'i dargedu at lwybrau bysus sy'n teithio trwy Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, mae budd sylweddol i newid yn yr hinsawdd yn ehangach o ddefnyddio cerbydau heb allyriadau o bibellau wacáu.

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyflenwi Burns i ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen i sicrhau newid moddol i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer coridor yr A48 / NCN 88 a darpariaeth Canol y Ddinas yn Old Green a'r Orsaf Reilffordd. Bydd canlyniadau'r ymarferion hyn yn llywio'r cynigion dylunio.

### 4.4.2 Y Camau Nesaf

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y thema hon dros y 12 mis nesaf yw:

- Cyflawni prosiectau gwefru cerbydau trydan a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru – 15 o fannau gwefru ar y stryd a hybiau cyflym ym maes parcio Ffordd y Brenin a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd
- Cynhyrchu cynllun amnewid fflyd a chost trosglwyddo i fflyd ULEV yn llawn, gan gynnwys cerbydau arbenigol fel cerbydau casglu sbwriel ac ysgubwyr ffyrdd
- Cyflwyno mannau gwefru cerbydau fflyd yn y Ganolfan Ddinesig
- Datblygu a gweithredu cynlluniau teithio cynaliadwy ar gyfer safleoedd allweddol y Cyngor, gan gynnwys ysgolion.

## 4.5 Thema 5: Y Nwyddau a'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu Caffael

| | | |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth 2030** | ***Bydd caffael cynaliadwy wrth wraidd y gwaith o sicrhau bod ein contractau allanol yn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr hinsawdd a natur ac yn lleihau ôl troed carbon y nwyddau, y gwaith a'r gwasanaethau a gaffaelir.*** | **M** |
| **Blaenoriaethau** | **Mesur:** Ennill dealltwriaeth dda o'n $tCO_2e$ amcangyfrifedig y flwyddyn o nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd, a'i broffil allyriadau a'i sylfaen cyflenwyr. | **M** |
| | **Canllawiau, Offer a Hyfforddiant:** Datblygu canllawiau, offer a hyfforddiant i'r sefydliad i gefnogi staff i leihau carbon drwy gydol cylch bywyd prosesau caffael. | **G** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Partneriaeth:** Arwain drwy esiampl a gweithio gyda'n partneriaid caffael strategol, o'r sector preifat a chyhoeddus, i gysoni dyheadau o ran y newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon a'r economi gylchol. | G |
| | **Ymgysylltu:** Cymell cyflenwyr drwy feini prawf gwerthuso cymesur i chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i leihau effeithiau carbon a'r hinsawdd. | M |

Roedd cyflwyno meini prawf penodol o ran lleihau carbon i broses gaffael Lefel 4 y Porth yn llwyddiant ysgubol i'r thema hon, a bydd y prosiect ymchwil a ddechreuodd ddiwedd 2022/23 ac sy'n parhau i 2023/24 yn rhoi cipolwg amhrisiadwy i ni ar natur a gwir raddau ein hallyriadau caffael yn hytrach na dibynnu'n unig ar fodel Llywodraeth Cymru o gyfrifo allyriadau, nad yw bob amser yn gywir (mae'r categorïau a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng cyflenwyr wedi'u seilio ar gyfartaledd allyriadau nad ydynt efallai yn adlewyrchu sefyllfa sefydliad penodol ac os yw cyflenwyr yn cael eu codio'n anghywir yn ein system yna bydd y gwerthoedd cyfartalog anghywir yn cael eu defnyddio, er enghraifft). Mae mwy o ffocws ar ein hallyriadau caffael hefyd yn rhoi cyfle i ni ymgysylltu'n well ar ddatgarboneiddio gyda'n cadwyn gyflenwi. Mae bron i 70% o'n cyflenwyr yn sefydliadau lleol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (29.21% yng Nghasnewydd), felly bydd unrhyw ddatgarboneiddio y maent yn ei wneud hefyd yn cael effaith fuddiol ar ein hallyriadau lleol.

### 4.5.2 Y diweddaraf ar brosiectau

#### *A. Newidiadau yn y Broses Gaffael ar gyfer Lefel 4 y Porth.*

Y prif newid a wnaed yn 2022/23 oedd y gofyniad i bob caffaeliad uwchben £175mil (Proses 4 y Porth) ystyried newid yn yr hinsawdd a gweithredu mesurau lleihau carbon. Bellach mae gan Gyfarwyddwyr Strategol a Bwrdd y Porth gyfrifoldeb i gymeradwyo contractau mawr sy'n fwy na £175mil. Cafodd y broses hon ei rhoi ar waith i leihau effaith ein contractau ar yr hinsawdd. I gefnogi hyn, bydd y Tîm Lleihau Carbon yn cydweithio ag Uwch Swyddogion Cyfrifol ar draws pob gwasanaeth a chydweithiwr caffael i adolygu a chynnig mesurau ar gyfer addasu manylebau a gweithredu camau angenrheidiol gan gyflenwyr drwy gydol cyfnod y contract, gan roi'r ffocws pennaf ar leihau allyriadau. Bydd yr adran yn Ffurflen Bwrdd Caffael y Porth sy'n canolbwyntio ar garbon yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Tîm Lleihau Carbon cyn ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Bwrdd, gan sicrhau ystyriaeth drylwyr o'r holl sefyllfaoedd posibl.

#### *B. Prosiect Ymchwil i Gaffael*

Gan fod caffael yn cynrychioli 51% o'n hallyriadau carbon yn 2021/22, roeddem yn awyddus i ddeall mwy am o ble y daw'r allyriadau hyn a sut y gallwn gefnogi ein cadwyn gyflenwi i ddatgarboneiddio.

I ddechrau, fe wnaethom nodi'r sefydliadau â'r gwariant blynyddol uchaf (mae 41 o sefydliadau yn cynrychioli 50% o'n gwariant blynyddol) a chyfathrebon ni â nhw'n uniongyrchol. Pennwyd

targedau i holi am eu Cynlluniau Lleihau Carbon a gofyn am ddata allyriadau. Ymatebodd corfforaethau mawr yn brydlon ac yn gydweithredol, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr.

Daeth heriau i'r amlwg wrth gysylltu â chyflenwyr ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Nid oedd gan lawer ohonynt brofiad o adrodd am garbon ac roeddent yn ansicr ynghylch y disgwyliadau. Roedd mynd i'r afael â hyn yn gyfle am addysg a chefnogaeth. Gwnaethom ddatblygu pecyn cymorth adrodd am allyriadau hawdd ei ddefnyddio i symleiddio'r broses a darparu ar gyfer anghenion amrywiol. Cyflwynwyd y pecyn cymorth ar ddiwedd 2022/23 a bydd yn parhau i gael ei fireinio, gan sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn ymarferol.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adrannau sy'n casglu gwybodaeth gyffredinol am bob sefydliad, megis gwasanaethau a ddarperir a throsiant blynyddol. Er mwyn osgoi dyblygu, gofynnir i sefydliadau am ddata sy'n benodol i gontractau â ni. I'r rhai sydd eisoes yn adrodd am eu hallyriadau, gofynnir iddynt fewnbynnu data Cwmpas 1, 2 a 3. Rhoddir cymorth i'r rhai nad ydynt yn adrodd am hyn ar hyn o bryd. Mae adran ar wahân yn cipio data defnydd (nwy, trydan, tanwydd) gydag opsiynau i adrodd yn flynyddol neu'n fisol. Mae'r daenlen yn cynnwys ffactorau carbon i gyfrifo allyriadau cyflenwyr yn gywir. Rydym wedi canfod bod y data a dderbyniwn gan ein cyflenwyr ynghylch allyriadau yn sylweddol is o'i gymharu â'r dulliau sy'n seiliedig ar wariant a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

### 4.4.2. Y Camau Nesaf

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y thema hon dros y 12 mis nesaf yw:

- Parhau i weithio gyda'n cyflenwyr i gael data cywir am eu hallyriadau a pharhau i ddod o hyd i ffyrdd i'w cefnogi i leihau hyn.
- Ymestyn prosesau Lefel 4 y Porth i bob pryniant Lefel 3 y Porth
- Canolbwyntio ar brosesau caffael y Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod hyn yn cynrychioli cyfran uchel o'n gwariant blynyddol

## 4.6. Thema 6: Ein Rôl Ehangach

| | | |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth 2030** | ***Arwain drwy esiampl a chefnogi ein cymunedau a'n partneriaid yn rhagweithiol tuag at gamau gweithredu dros natur ac adfer yr hinsawdd ledled y gymdeithas.*** | **G** |
| **Blaenoriaethau** | **Creu lleoedd a Rheoli Adeiladu:** Lleihau allyriadau carbon a chefnogi natur drwy ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, carbon isel, dylanwadu ar ynni carbon isel ac adeiladu cymunedau cryf. | **G** |
| | **Ynni:** Nodi a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i'r system ynni leol i ddatgarboneiddio gwres, trydan a thrafnidiaeth leol a sylweddoli cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol. | **G** |
| | **Llifogydd:** Cynyddu gwytnwch o ran yr hinsawdd a lliniaru yn erbyn llifogydd ledled y ddinas gan ddefnyddio ystod o fesurau gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd naturiol. | **M** |
| | **Gwastraff:** Lleihau allyriadau carbon o reoli gwastraff er mwyn bod yn ddinas a chenedl ddiwastraff erbyn 2050. | **G** |
| | **Digidol:** Defnyddio atebion digidol yn effeithiol i leihau a monitro allyriadau carbon. | **M** |
| | **Partneriaethau a Chymunedau:** Cydweithio â phartneriaid a chymunedau i hyrwyddo adferiad yr hinsawdd a natur ledled y ddinas. | **M** |

Mae'r cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae’r gwaith sy'n cael ei wneud ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn faes sydd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf ar ein hallyriadau ledled y ddinas.  Mae datblygu'r Cynllun Ynni Ardal Leol hefyd yn gyflawniad sylweddol ar gyfer eleni, er nad yw'n cael ei gynnwys fel astudiaeth achos isod gan ei fod eisoes wedi'i drafod uchod.

### 4.6.2 Y diweddaraf ar brosiectau

*A. Cynllun Datblygu Lleol Newydd*

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Casnewydd.  Mae Cynllun Datblygu Lleol yn dangos sut y dylid defnyddio tir a sut dylid datblygu ardal dros gyfnod penodol o amser. Ar ôl mabwysiadu’r cynllun, mae'n llywio'r holl benderfyniadau cynllunio mewn ardal.  Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) presennol yn 2015. Mae'n nodi sut y bydd datblygiadau newydd yn cael eu rheoli a sut bydd tir yn cael ei ddefnyddio yng Nghasnewydd tan 2026.

Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Yn 2020, cytunwyd y dylid paratoi cynllun newydd.  Mae'r Tîm Newid yn yr Hinsawdd wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Polisi Cynllunio i

sicrhau cynrychiolaeth briodol o ystyriaethau Newid yn yr Hinsawdd, gan gynnwys dim nwy mewn datblygiadau newydd, gofynion bioamrywiaeth a blaenoriaethu ynni adnewyddadwy.

### *B. Diwrnod Aer Glân*




Mae Steve Manning, Uwch Swyddog Gwyddonol Cyngor Dinas Casnewydd, yn trefnu digwyddiad bob blwyddyn mewn cydweithrediad â'r cynllun Diwrnod Aer Glân cenedlaethol sy'n cael ei hyrwyddo gan Global Action Planning. Eleni gwahoddwyd plant ysgol i gymryd rhan mewn taith gerdded amgylcheddol oedd yn canolbwyntio ar ansawdd yr aer, sŵn amgylcheddol, a bioamrywiaeth. Rhoddwyd cyfarpar monitro a deunyddiau papur i'r plant i'w galluogi i ymchwilio i'w hamgylchedd lleol, o ran ochr y ffordd a'r gofod agored drwy ran newydd o lwybr teithio llesol. (Gweler y fideo isod.)

https://youtu.be/Hlx0YCKUbCc.

Cafodd gweithgynhyrchwyr offerynnau monitro a cherbydau trydan y Cyngor hefyd eu harddangos yn y digwyddiad, gydag Arweinydd y Cyngor yn cymeradwyo'r digwyddiad a gwnaed cyfraniad gwerthfawr hefyd gan Bencampwr Aer Glân Llywodraeth Cymru, yr Athro Paul Lewis. Mae Diwrnod Aer Glân yn rhan o ystod ehangach o waith y mae Steve yn ei gyflawni drwy gydol y flwyddyn sy'n cynnwys adrodd yn flynyddol ar fonitro ansawdd aer a chynllunio camau gweithredu.

### *C. Gwastraff*

Mae'r Cyngor yn parhau â'i waith i gyflawni targedau dim gwastraff Llywodraeth Cymru erbyn 2050. Yn 2021-22 rhagorodd y Cyngor unwaith eto ar ei darged ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff trefol gan gyflawni 65.17%.

Cafodd cynnig i symud i gasgliadau bob 3 wythnos yn 23/24 ei gymeradwyo ym mis Chwefror. Disgwylir i hyn gynyddu cyfraddau ailgylchu drwy gyfyngu ar gapasiti gwastraff gweddilliol ac rydym yn targedu cyfradd o 70% ar gyfer eleni.

Yn ogystal, mae 7 cerbyd sbwriel allan o'n fflyd o 16 bellach yn gwbl drydanol.

### *D. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin*

Mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer dau brosiect lleihau carbon drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG). Bydd un o'r rhain yn darparu cyllid dros ddwy flynedd i gefnogi cynlluniau i ddatgarboneiddio adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned. Yn ogystal, rydym wedi sicrhau cyllid i ddarparu hyfforddiant Sgiliau Gwyrdd, e.e. gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer.

## 4.6.2. Y Camau Nesaf

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y thema hon dros y 12 mis nesaf yw:

- Gwella ymhellach y ddarpariaeth casglu gwastraff i gynyddu'r gyfradd ailgylchu i 70%

- Gweithredu Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i gael gwared ar blastigau untro o'n hystâd a gweithio i waredu plastigau untro o'n cadwyn gyflenwi

# 5. ADRODD AM GARBON YN FLYNYDDOL


Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad (Mai 2021) i sefydliadau'r sector cyhoeddus i alluogi dull cyson ledled Cymru o adrodd am allyriadau carbon sefydliadol. Mae'r fethodoleg adrodd yn ystyried yr holl allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a gyflawnir gan awdurdodau lleol gan gynnwys tanwydd, ynni, defnydd o ddŵr, gwaredu gwastraff, cymudo gweithwyr, teithio busnes a defnydd tir.

Mae ffigurau ar gyfer 22/23 wedi'u cynnwys yn y tabl cryno isod, a cheir dadansoddiad pellach ar gyfer pob un o'r themâu cyflawni yn yr adrannau isod.

| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Trosfwaol | | | | |
| Cyfanswm tCO2e | 82,005 | 89,943 | 78,901 | 61,246 |
| Ein Hadeiladau | | | | |
| Cyfanswm tCO2e o adeiladau | 15,231 | 11,404 | 12,787 | 11,525 |
| Cyfanswm tCO2e o danwydd | 8,575 | 7,455 | 7,901 | 7,120 |
| Cyfanswm tCO2 o drydan | 6,619 | 3,911 | 4,832 | 4,368 |
| Cyfanswm tCO2e o wres a stêm | 37 | 37 | 55 | 38 |
| Cyfanswm tCO2e o ddŵr | 136 | 101 | 44 | 21 |
| Ein Tir | | | | |
| Cyfanswm tCO2e o asedau tir | -1,041 | -1,041 | -829 | -950 |
| Trafnidiaeth a Symudedd | | | | |
| Cyfanswm tCO2e o drafnidiaeth a symudedd | 5,603 | 2,280 | 4,844 | 4,808 |
| Cyfanswm tCO2 o'r fflyd | 2,184 | 2,066 | 2,298 | 1,979 |
| Cyfanswm tCO2 o deithio busnes | 299 | 58 | 143 | 212 |
| Cyfanswm tCO2e o gymudo gweithwyr | 3,120 | 156 | 2,403 | 2,617 |
| Y Nwyddau a'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu Caffael | | | | |
| Cyfanswm tCO2e | 55,168 | 56,190 | 40,231 | 25,550 |
| Ein Rôl Ehangach | | | | |
| Cyfanswm tCO2e o wastraff | 6,908 | 21,009 | 20,279 | 18,576 |
| Gweithio Gartref | Dd/B | Dd/B | 1,545 | 1,715 |

## 5.1 Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol


| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tCO2e | 82,005 | 89,943 | 78,901 | 61,246 |




Yn y maes hwn, mae gostyngiad o 17,655 tunnell y flwyddyn o 21/22 i 22/23. Er bod arbedion carbon wedi'u gwneud drwy'r amrywiaeth o waith a mentrau parhaus, gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r newid hwn i newidiadau yn ein ffigurau caffael, sy'n deillio o newidiadau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn priodoli allyriadau cyflenwyr. Gan ddefnyddio'r fethodoleg adrodd flaenorol, mae'r allyriadau ar gyfer 2022/23 yn cyfrifo 78,036 tunnell.


## 5.2 Ein Hadeiladau

| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tCO2e o adeiladau | 15,231 | 11,404 | 12,787 | 11,525 |
| Cyfanswm tCO2e o danwydd | 8,575 | 7,455 | 7,901 | 7,120 |
| Cyfanswm tCO2 o drydan | 6,619 | 3,911 | 4,832 | 4,368 |
| Cyfanswm tCO2e o wres a stêm | 37 | 37 | 55 | 38 |
| Cyfanswm tCO2e o ddŵr | 136 | 101 | 44 | 21 |




## 5.3 Ein Tir

| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tCO2e o asedau tir | -1,041 | -1,041 | -829 | -950 |



## 5.4 Trafnidiaeth a Symudedd


| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tCO2e o drafnidiaeth a symudedd | 5,603 | 2,280 | 4,844 | 4,808 |
| Cyfanswm tCO2 o'r fflyd | 2,184 | 2,066 | 2,298 | 1,979 |
| Cyfanswm tCO2 o deithio busnes | 299 | 58 | 143 | 212 |
| Cyfanswm tCO2e o gymudo gweithwyr | 3,120 | 156 | 2,403 | 2,617 |



## 5.5 Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gyrchwn

Mae'r gostyngiad mawr a welwyd yn ffigyrau eleni yn deillio o'r newidiadau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo allyriadau'r gadwyn gyflenwi (Ffactorau Allyriadau). Mae hyn yn bennaf oherwydd bod LlC wedi gwneud newidiadau i'w ffactorau carbon yn seiliedig ar ymchwil yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net sy'n dangos gostyngiad mawr yn swm y CO2 oherwydd y cynnydd mewn ynni adnewyddadwy yn ein cyflenwad trydan. Cynhelir yr ymchwil hon yn flynyddol, ond nid oedd LlC wedi diweddaru eu ffactorau carbon ers nifer o flynyddoedd, a dyna pam y ceir newid sylweddol o 21/22 i 22/23.

| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tCO2e o gaffael | 55,168 | 56,190 | 40,231 | 25,550 |



## 5.6 Ein Rôl Ehangach

| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tCO2e o wastraff | 6,908 | 21,009 | 20,279 | 18,576 |



# 6 ATODIAD A - CYNLLUNIAU GWEITHREDU 2022/23

## 6.1 Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| ***1. Ymddygiad a Modelau Rôl:*** *Bydd ein haelodau etholedig a'n gweithlu yn cael eu hannog a'u cefnogi i ystyried eu cyfraniad unigol at fod yn garbon sero-net erbyn 2030, a bydd arweinwyr yn modelu disgwyliadau'r Cyngor.* | i. Datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig, rheolwyr a staff. | • Adolygu a chytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer hyfforddiant llythrennedd carbon.<br>• Caffael hyfforddiant llythrennedd carbon<br>• Ymchwilio i eco-lythrennedd a chynllun peilot. | G |
| | ii. Mae pob aelod etholedig yn ymgymryd â hyfforddiant eco a llythrennedd carbon o fewn y flwyddyn gyntaf ar ôl yr etholiadau lleol gyda diweddariadau rheolaidd. | • Ceisio cyllid ar gyfer hyfforddiant<br>• Trefnu sesiynau ar gyfer yr aelodau sy'n weddill (1 sesiwn yn Hydref/Tachwedd - 1 sesiwn yn Chwefror) | G |
| | iii. Mae pob uwch reolwr (lefel rheolwyr gwasanaeth ac uwch) yn ymgymryd â hyfforddiant eco a llythrennedd carbon gorfodol. | • Ymchwilio i nifer y rheolwyr fydd yn cymryd rhan<br>• Ceisio cyllid ar gyfer hyfforddiant llythrennedd carbon<br>• Trefnu hyfforddiant | G |
| | iv. Ymgorffori gweledigaeth newid yn yr hinsawdd a'i chynnwys fel rhan o'r cyfnod sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff y Cyngor. | • Ysgrifennu cynnwys ar gyfer tudalen recriwtio.<br>• Adolygu a diwygio deunyddiau'r cyfnod sefydlu i gynnwys newid yn yr hinsawdd lle bo hynny'n briodol. | G |
| | v. Darparu hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o'r hinsawdd a bioamrywiaeth ar gyfer aelodau newydd / presennol o staff. | Gweler 1i-iii | M |
| | vi. Rhoi gwybodaeth ac arweiniad i staff ar sut y gallant helpu i leihau eu hôl troed carbon drwy eu dewisiadau gwaith/bywyd. | • Nodi deunyddiau presennol i roi sylw iddynt gan gynnwys offer cyfrifo ôl troed carbon.<br>• Nodi'r cyfryngau i'w defnyddio e.e.<br>- cylchlythyr staff<br>- animeiddiad<br>- y fewnrwyd<br>- cefndir cyfrifiadur | M |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | | - cyrraedd pob aelod o staff | |
| | vii. Arwain drwy esiampl a dangos yr ymrwymiad i herio arferion ac ymddygiadau gwael lle nad yw'r argyfwng ecolegol a hinsawdd yn cael ei ystyried yn briodol yng ngweithredoedd pobl eraill. | • Rhoi gwybodaeth i uwch reolwyr ac uwch arweinwyr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau<br>• Darparu cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer achosion busnes ac i'r bobl sy'n llunio adroddiadau<br>• Gweithredu ThCM<br>• Yn gysylltiedig â 2i | G |
| | viii. Cynnwys camau gweithredu carbon sero-net, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn ein fframwaith gwerthoedd corfforaethol gan eu hymgorffori yn ein gweithgarwch rheoli pobl megis dyfarniadau cydnabod, rheoli perfformiad a fframweithiau ymddygiadol. | • Sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth Pobl a Diwylliant | C |
| | ix. Cefnogi ac annog y gweithlu i gynnwys camau gweithredu lleihau carbon, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth ar draws y Cyngor drwy sefydlu Rhwydwaith Newid yn yr Hinsawdd. | • Hyrwyddo Rhwydwaith Newid yn yr Hinsawdd i recriwtio aelodau<br>• Pob Pennaeth Gwasanaeth i hyrwyddo Rhwydwaith Newid yn yr Hinsawdd i ddenu diddordeb staff nad ydynt efallai'n rhan o hyn<br>• Sefydlu Rhwydwaith Newid yn yr Hinsawdd<br>• Aelod o staff o'r rhwydwaith i fynychu'r is-grŵp Diwylliant ac Arweinyddiaeth. | G |
| **2.** ***Llywodraethu a Pherfformiad:*** *Bydd ein swyddogaethau democrataidd a chorfforaethol yn ymrwymedig i fod yn garbon sero-net erbyn 2030, a bydd ein penderfyniadau,* | i. Pob penderfyniad gwleidyddol a chorfforaethol i werthuso'r effeithiau newid yn yr hinsawdd, ecolegol a lleihau carbon fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. | • Adolygu templedi adroddiad democrataidd a'u diwygio i ymgorffori newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.<br>• Datblygu hyfforddiant i gefnogi'r broses hon. | M |
| | ii. Sicrhau bod y gwaith i ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2022-27 yn ystyried yr ymrwymiadau a wnaed yn y cynllun hwn ac yn ymgorffori ein dyhead i fod yn ddinas carbon sero-net a lleihau effeithiau'r argyfwng hinsawdd a natur drwy'r prosiectau a'r amcanion. | • Sicrhau bod Newid yn yr Hinsawdd a datgarboneiddio yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd. | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *ein fframwaith llywodraethu a'n monitro perfformiad yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.* | iii. Sicrhau bod mesurau perfformiad yn cynnwys ein targedau sefydliadol i ddod yn sefydliad carbon sero-net a lleihau effeithiau'r argyfwng hinsawdd a natur. | • Sicrhau yr adroddir am garbon i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.<br>• Ychwanegu at y broses cynllunio gwasanaethau<br>• Datblygu adroddiadau Newid yn yr Hinsawdd ar MI Hub gan integreiddio â'r broses o gynllunio gwasanaethau. | G |
| | iv. Adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod datgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd a natur yn cael eu hystyried. | • Cysylltu â gwasanaethau i ymchwilio i'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol.<br>• Rhoi proses ar waith i sicrhau bod pob polisi newydd yn ystyried newid yn yr hinsawdd.<br>• Gweler 4iii | G |
| 3. *Hyrwyddo ac Ymgysylltu:* *Rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i gynnydd a chyflawniadau i ymgorffori dyheadau i fod yn garbon sero-net erbyn 2030* | i. Adrodd am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd yn flynyddol (gweler 1 uchod) fel rhan o'r Hunanasesiad/Adroddiad Blynyddol Corfforaethol. | • Ychwanegu Adroddiad Blynyddol at raglen waith y Cabinet a'r Cyngor<br>• Datblygu adroddiad | G |
| | ii. Ymgysylltu'n gadarnhaol â'n trigolion a'n cymunedau ar ein taith i ddod yn garbon sero. e.e. Materion Casnewydd, negeseuon gan yr Arweinydd/Aelod Cabinet/Prif Weithredwr, cyfryngau cymdeithasol, tudalen we bwrpasol, grwpiau buddiant ac ati | • Defnyddio'r brand ac animeiddiadau ar ôl eu cwblhau.<br>• Defnyddio adroddiadau chwarterol i hyrwyddo mewn modd amserol.<br>• Cynnwys cyfathrebu mewn prosiectau wrth iddynt gael eu datblygu.<br>• Cysylltiad a'r strategaeth cyfranogiad | G |
| | iii. Nodi gweithredu ac ymddygiadau cadarnhaol a ddangosir gan y gweithlu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhain drwy ein sianeli ymgysylltu. e.e. cylchlythyr staff, tudalen fewnrwyd bwrpasol ac ati. | • Adran reolaidd mewn newyddion staff<br>• Ystyried proses wobrwyo tîm/staff. | M |
| 4. *Ymrwymiad Ariannol:* *Cynllunio ar gyfer effeithiau ariannol newid yn yr hinsawdd, a* | i. Ystyried y mentrau lleihau carbon a'r argyfwng hinsawdd a natur o fewn rhaglen gyfalaf hirdymor a chyllideb refeniw / Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, gan wneud y defnydd gorau o gyllid allanol lle bo hynny'n bosibl. | • Cynllun corfforaethol i ddyrannu cyllideb<br>• Sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori yn y CATC a'r Rhaglen Gyfalaf<br>• Eu cyfeirio at Fwrdd Rhaglen yr Hinsawdd i'w hystyried a bwrw ymlaen â'r mentrau | M |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *sicrhau bod ein cynllunio ariannol tymor canolig i dymor hir yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon lle bo hynny'n bosibl.* | | • Adolygu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a Chyfalaf i sicrhau eu bod yn ystyried newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur. | |
| | ii. Ymrwymo i archwilio ffynonellau priodol o gyllid allanol a defnydd arloesol o gronfeydd mewnol i yrru'r newid sydd ei angen i gyflawni ein dyhead i ddod yn garbon sero-net erbyn 2030. | • Datblygu cynllun anghenion cyllido i nodi bylchau<br>• Sicrhau bod pob ffynhonnell ariannu yn cael ei harchwilio a'i cheisio. | G |
| | iii. Mae pob achos busnes ar gyfer prosiectau a rhaglenni newid trawsnewidiol yn ystyried effeithiau ariannol ac anariannol lleihau carbon. | • Diweddaru prosesau fel rhan o'r ailstrwythuro ac adolygiad o'r strwythur llywodraethu.<br>• Adolygu ffurflen gais cyfalaf i ymgorffori lleihau carbon<br>• Gweler 2iv | M |
| | iv. Adolygu'r holl fuddsoddiadau i sicrhau eu bod yn cael eu buddsoddi mewn cronfeydd moesegol. | • Adolygu ein buddsoddiadau presennol<br>• Adlewyrchu buddsoddiadau moesegol yn ein Strategaeth Rheoli Trysorlys a Chyfalaf | G |
| | v. Defnyddio ein dylanwad i annog cronfa bensiwn y staff i fuddsoddi mewn cronfeydd moesegol. | • Sicrhau bod y bwrdd pensiynau'n ymwybodol | M |

## 6.2 Ein Hadeiladau

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *1. Adeiladau Newydd y Cyngor:*<br>*Bydd pob adeilad newydd yn garbon sero-net.* | i. Sicrhau bod ymrwymiad i adeiladu fod yn garbon sero-net yn cael ei gyfleu'n glir i'r holl randdeiliaid ar ddechrau unrhyw brosiect adeiladu newydd. | • Trafod gyda Newport Norse.<br>• Datblygu polisi ysgrifenedig i'w gytuno arno gan y Cabinet (yr Aelodau Cabinet arweiniol yw Seilwaith ac Asedau, a Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth a hefyd Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar) | M |
| | ii. Cynnwys gofynion i adeiladau ddefnyddio ynni carbon sero-net ym mriff y prosiect. | | |
| | iii. Cynnwys gofynion ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur a gwyrddio ar gyfer pob adeilad newydd. Er enghraifft, toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, SDCau ac ati | | |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | iv. Sicrhau ymgysylltiad cynnar i helpu i ddatblygu'r strategaeth gwresogi carbon sero-net gyffredinol ar gyfer adeiladau newydd. | | |
| | v. Y Cyngor i ddarparu cyllid ychwanegol lle bo'n rhesymol i gyrraedd targedau ynni gweithredol carbon sero-net ar gyfer adeiladau newydd. | • Trafod gyda'r Tîm Cyfalaf a Newport Norse.<br>• Cytuno ar ganran ariannol resymol i gyrraedd targedau carbon sero-net ar gyfer adeiladau newydd. | M |
| *2. Ôl-osod Adeiladau:*<br>*Ôl-osod trylwyr i sicrhau ein bod yn creu adeiladau ynni carbon sero-net.* | i. Bydd y Cyngor yn gosod paramedrau achos busnes priodol i ganiatáu ôl-osod safleoedd addas yn drylwyr ac i fynd i'r afael â chyfuniad o fesurau heriol a mesurau haws eu gweithredu o'r cychwyn cyntaf. | • Trafod gyda Newport Norse.<br>• Ymgysylltu â darparwr allanol i sefydlu costau ôl-osod ar gyfer yr holl asedau.<br>• Sefydlu costau ôl-osod ar gyfer yr holl asedau. | G |
| | ii. Bydd PV Solar yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf i ddarparu'r gyfran uchaf o drydan a ddefnyddir fel sy'n ymarferol fesul lleoliad. | • Cymhwyso'r egwyddor i bob adeilad sy'n cael ei ôl-osod<br>• Casglu cynigion datgarboneiddio ar gyfer safleoedd ac adolygu cyfleoedd solar | M |
| *3. Gwres Adnewyddadwy:*<br>*Gosod systemau gwres adnewyddadwy mewn adeiladau newydd.* | i. Gorchymyn ym mriff y prosiect mai dim ond atebion gwresogi carbon-isel sydd i'w hystyried yn ffynonellau gwresogi. | Wedi'i gynnwys yn *1.i-iv* uchod | G |
| | ii. Sicrhau bod tîm prosiect / defnyddwyr adeiladau wedi derbyn hyfforddiant angenrheidiol ar opsiynau gwresogi carbon-isel. | • Cael mynediad at a datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer opsiynau gwresogi carbon isel sy'n cael eu defnyddio ar y safle<br>• Darparu hyfforddiant | M |
| | iii. Ystyried adeiladau cyfagos (sy'n eiddo i'r Cyngor / cyhoeddus / preifat) wrth bennu strategaeth ynni ar gyfer rhwydweithiau gwres adeiladau. | • Mapio adeiladau presennol i ddatblygu map / rhestr o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwres.<br>• Ystyried adeiladau eraill y sector cyhoeddus | M |
| *4. Nwy Naturiol:*<br>*Ymrwymiad i leihau'n sylweddol neu ddileu gwres* | i. Dangos ymrwymiad i gyflwyno'n ehangach drwy dreialu 1-2 brosiect enghreifftiol ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth. | • Treialu prosiectau gwresogi carbon isel<br>• Cwblhau gwaith ar ysgolion carbon isel | G |
| | ii. Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer esbonio'r penderfyniad i symud i wresogi | • Dod o hyd i / datblygu fideo/cynnwys ar wresogi carbon isel i'w rannu gydag ysgolion a safleoedd | M |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *nwy naturiol yn ein hadeiladau i gyd.* | carbon-isel, a sut y bydd hynny'n effeithio ar feddianwyr adeiladau. | | |
| | iii. Sybsideiddio costau refeniw uwch tymor byr i safleoedd sydd wedi trosglwyddo o wresogi nwy i ddewisiadau carbon-isel. | • Trafod y camau nesaf gyda'r adran Gyllid<br>• Cytuno ar broses wrth symud ymlaen | M |
| *5. Rhesymoli Adeiladau:*<br>*Archwilio asedau'r presennol i ddeall eu heffaith carbon hirdymor gyda'r nod o'u defnyddio'n well yn strategol.* | i. Datblygu matrics blaenoriaethu ar gyfer rhesymoli asedau presennol sy'n eiddo i'r Cyngor gan gynnwys:<br>- Costau cyfleustodau ar hyn o bryd<br>- Costau carboneiddio dwfn | • Cwblhau matrics blaenoriaethu<br>• Ar ôl ei dderbyn, ymgorffori costau datgarboneiddio yn y matrics blaenoriaethu<br>• Ymgorffori mewn polisi a ddatblygwyd ar gyfer 1i-iv a 3i<br>• Mae angen ystyried pryniannau yma hefyd. | M |
| | ii. Nodi eiddo fydd ag effaith garbon fawr ar y Cyngor yn yr hirdymor os cânt eu cadw. | | |
| | iii. Nodi eiddo a fydd yn gofyn am y buddsoddiad mwyaf i'w datgarboneiddio. | | |
| | iv. Cynnal adolygiad strategol o asedau. | • Cynnal adolygiad o asedau a phenderfynu ar y canllawiau priodol a chymeradwyo penderfyniadau sy'n ofynnol ar gyfer yr ystâd bresennol | G |

## 6.3 Ein Tir

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *1. Ecosystem Wydn:*<br>*Adfer, creu a chysylltu bioamrywiaeth a chynefinoedd yn gynaliadwy trwy wella tir sy'n eiddo* | i. Defnyddio prosesau mapio ac asesu seilwaith gwyrdd i newid arferion rheoli tir er mwyn creu, cynnal ac adfer amgylcheddau bioamrywiol sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a chynnig storfeydd carbon. | • Creu cronfa ddata mapio y gall timau ddechrau ei phoblogi â chynlluniau rheoli a chamau gweithredu.<br>• Cynhyrchu cynlluniau rheoli unigol ar gyfer safleoedd CDC<br>• Anfon cynllun ymlaen at Chris Blandford Associates i'w ddatblygu i'r lefel nesaf | G |
| | ii. Adolygu ac addasu strategaethau seilwaith gwyrdd i ystyried bioamrywiaeth, lleihau | • Adolygu dogfennau CCA h.y. CCA Bioamrywiaeth a Datblygu | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *i'r Cyngor a thir cyhoeddus.* | carbon a rheoli llifogydd yn naturiol. (I'w gysylltu â'r strategaeth coed trefol). | | |
| | iii. Diweddaru'r cynllun bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn rheolaidd yn unol â dyletswydd Deddf yr Amgylchedd. | • Llunio blaengynllun ac adrodd ar y 3 blynedd diwethaf. | G |
| | iv. Adolygu'r gwaith o reoli ardaloedd cyhoeddus a thir y mae'r Cyngor yn berchen arno i wella ansawdd bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd (e.e. plannu dolydd, gwella glaswelltiroedd ac ati). | • Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymgymryd â'r gwaith hwn<br>• Adolygu cytundebau tenantiaeth cyfredol<br>• Ymgysylltu â thenantiaid<br>• Adfeddiannu tir yn unol â gwasanaethau newydd –haenau i'w hychwanegu at fapio systemau gwybodaeth ddaearyddol<br>• Norse i restru tir addas<br>• Y tir ar gael i fynd i CSAMG | M |
| | v. Rheoli seilwaith glas yn effeithiol er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd, sicrhau oeri, gwella ansawdd aer a chreu storfeydd carbon. | • Strategaeth SDCau | M |
| *2. Coed a Choetir:*<br><br>*Gwella iechyd pobl, ansawdd yr amgylchedd, lleihau a dal carbon drwy reoli a chynyddu coed a choetir Casnewydd yn gynaliadwy.* | i. Sicrhau cynnydd cyffredinol yn y gorchudd coed drwy ddatblygu strategaeth coed trefol ac adolygu ac addasu'r polisïau plannu coed presennol i ymgorffori arfer gorau. | • Adolygiad o'r gorchmynion diogelu coed presennol a pholisi *Coed sy'n eiddo i CDC*. Ei ail-gyhoeddi gyda gwelliannau<br>• Adolygu enghreifftiau o arferion gorau yn y strategaeth coed a chreu Strategaeth Coed Trefol benodol ar gyfer Casnewydd<br>• Tîm i barhau â'r gwaith parhaus ac adrodd yn ôl bob chwarter | G |
| | ii. Gwella data sylfaenol gorchudd coed ar draws ardal yr awdurdod lleol. | • Cysylltu â i-Tree<br>• Adolygu a dadansoddi'r llinell sylfaen i-Tree a ddarperir<br>• Archwilio dulliau asesu posibl eraill i wirio lefel bresennol y gorchudd coed yn yr Awdurdod. | G |
| | iii. Nodi lleoliadau addas o fewn tir y Cyngor ar gyfer plannu coed gan gynnwys ailddyrannu tir ac ailblannu ar gyfer coetiroedd ynn a gollwyd. | • Parhau i edrych ar blannu coed newydd yn lle'r coed ynn y bu'n rhaid eu cwympo (digolledu)<br>• Nodi safleoedd ychwanegol i blannu coed a'u gwella drwy waith mapio<br>• Datblygu palet o rywogaethau coed addas ar gyfer y Ddinas<br>• Edrych i gytuno ar bolisi ynglŷn â gwerthu tir sy'n ystyried cyfleoedd i blannu coed | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | iv. Cynyddu nifer y coed ar dir y Cyngor gan 26,000 yn unol â chanfyddiadau'r astudiaeth iTree. | • Plannu coed yn y tymor priodol<br>• Parhau i fonitro ffigurau plannu yn erbyn gwaredu | G |
| | v. Sicrhau cynaliadwyedd y coed drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddod o hyd i stoc coed o darddiad a gwreiddiau lleol. | • Nodi cynhyrchwyr lleol<br>• Ymgymryd ag ymarferion fetio ariannol, tarddiad y coed a gwiriadau ansawdd<br>• Creu rhestr ddethol yn unol â chaffael | G |
| | vi. Gweithio gyda phartneriaid y ddinas i nodi lleoliadau addas ym mhortffolio tir y Cyngor ar gyfer plannu coed gan gynnwys ailddyrannu tir ac ailblannu ar gyfer coetiroedd ynn a gollwyd. | • Diwygio polisi CDC ynghylch gwerthu tir er mwyn cynnwys potensial newid yn yr hinsawdd<br>• Cyflwyno proses lle mae penderfyniadau i ailfeddiannu neu werthu tir CDC yn dod gerbron yr is-grŵp hwn cyn CSAMG<br>• CDC a Norse i drafod gwaredu safleoedd i benderfynu a oes unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gael i blannu coed | G |
| | vii. Gwerthuso'r angen ac ystyried ymgymryd â thir gwerth isel i gynyddu maint y gorchudd coed a bioamrywiaeth. | • Adolygu'r polisi caffael i gefnogi'r cynllun a'r camau gweithredu seiliedig ar thema<br>• Nodi tir CDC sy'n anaddas i'w ddatblygu yn y dyfodol<br>• Adolygu polisi A106 i gynnwys tir sy'n addas i gefnogi gweithgareddau newid yn yr hinsawdd<br>• Nodi unrhyw ddatblygiadau prosiect ag arian grant allanol a allai gefnogi nodau'r gwaith hwn<br>• Archwilio ceisiadau cynllunio a "chynigion" o fannau agored drwy gytundeb A106 i nodi tir a allai fod o fudd i'r is-grŵp hwn | M |
| *3. Mannau Gwyrdd Trefol:*<br>*Cynyddu seilwaith gwyrdd y tir cyhoeddus dinesig i leihau anghydraddoldebau amgylcheddol, er buddion lluosog* | i. Creu mannau gwyrdd trefol drwy ail-ddyrannu gofod ac ôl-osod datblygiadau arloesol a allai gynnwys:<br>• parciau bychan.<br>• Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) / gerddi glaw.<br>• gofod ar doeau.<br>• waliau gwyrddion.<br>• nodweddion dŵr i greu effeithiau oeri. | • Ailystyried ac adolygu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer canol y ddinas<br>• Ehangu hyn i gwmpasu'r ddinas gyfan<br>• Mewnbynnu'r astudiaeth hon i uwchgynlluniau presennol i sicrhau bod gweithgareddau'r is-grŵp hwn yn cael eu hymgorffori a bod unrhyw "orgyffwrdd" o ddefnydd tir yn cael ei nodi<br>• O'r astudiaeth ddichonoldeb, nodi meysydd lle gellir gweithredu cynlluniau yn gyflym<br>• Nodi pa gymorth allanol sydd ei angen | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| *adferiad natur, iechyd a lles pobl, ymaddasu i'r hinsawdd, lliniaru llifogydd, lleihau carbon a darparu aer glân.* | • palmentydd sy'n fwy mân-dyllog<br>• plannu blodau gwyllt<br>• coed a gwrychoedd stryd mewn ardaloedd o lygredd aer uchel.<br>• buddsoddi mewn coed i gadw ardaloedd trefol yn glaer a chreu cysgod i ddiogelu rhag gwres, a llifogydd. | • Nodi ffynonellau cyllid a phrosesau caffael i gynorthwyo'r cynlluniau a'r prosiectau cyffredinol o'r uwchgynllun<br>• Ymgysylltu â Chymdeithasau Tai ynghylch rheoli tir | |
| 4. Tir ar Brydles y Cyngor:<br>*Cefnogi adferiad natur a lleihau allyriadau carbon o dir fferm y mae'r Cyngor yn berchen arno ac unrhyw dir arall sydd ar brydles.* | i. Adolygu tir sy'n eiddo i'r Cyngor a nodi cyfleoedd i weithio gyda thenantiaid i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth a dal carbon. | • Adnabod darpar denantiaid a grwpiau<br>• Adnabod deiliaid prydles<br>• Cynnal adolygiad o dirfeddianwyr a rheolwyr cysylltiedig h.y. cymdeithas dai,<br>• Adolygu telerau ac amodau prydles a thrwyddedau<br>• Ymgysylltu â Thŷ Tredegar ynghylch rheoli tir | M |
| | ii. Sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o fentrau lleihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth a dal carbon a'u hannog i gymryd rhan ynddynt. | • RC a TAC i nodi mesurau y gellid eu hymgorffori mewn prydlesi a/neu drwyddedau newydd<br>• Trafod potensial y mesurau hyn gyda thenantiaid presennol | M |

## 6.4 Trafnidiaeth a Symudedd

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| 1. *Milltiroedd Busnes (Llwyd) a Chymudo Staff:* Lleihau allyriadau carbon gan gymudo gweithwyr a | i. Lleihau nifer y bobl sy'n cymudo mewn car ar eu pen eu hunain drwy weithredu model gweithredu newydd gan gynnwys gweithio gartref hybrid a defnyddio hybiau sector cyhoeddus lleol:<br>• Gweithwyr a nodwyd sy'n gweithio 40% yn y gwaith a 60% gartref ar gyfartaledd. | • Cymeradwyo polisïau gweithio gartref<br>• Cymeradwyo cyllid gan y cabinet a'r bwrdd gweithredol<br>• Datblygu cynigion ar gyfer parcio yn y ganolfan ddinesig<br>• Cyflwyniad i'r bwrdd gweithredol ar barcio ceir | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| milltiroedd llwyd, drwy annog gweithio ystwyth, teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn. | ii. Cynyddu cyfranogiad mewn dulliau teithio llesol gan gynnwys beicio, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus:<br>• Cynyddu'r gwaith o hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith a'i ymestyn i gynnwys e-feiciau. | • Parhau i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun | G |
| | • Adolygu'r potensial i gynnig cynllun beicio i'r gwaith drwy gydol y flwyddyn. | • Cytuno gyda darparwr y buddion | G |
| | • Ymestyn ein cynlluniau gostyngiadau i bob darparwr bysus a threnau. | • Trafod gyda darparwyr bysus ynghylch cynlluniau gostyngiadau posibl | M |
| | • Hyrwyddo cynllun buddion gweithwyr ar gyfer teithio llesol h.y. siopau hamdden awyr agored sy'n gwerthu cit beicio/cerdded. | • Cytuno gyda darparwr y buddion | G |
| | • Gosod/ darparu storfa, cawodydd/ lle newid, loceri yn y prif safleoedd. | *Cyllid o dan y normal newydd*<br>*Gallai arian Burns fod ar gael yma*<br>*Storio diogel - sied feiciau*<br>*Hefyd, mae angen meddwl am storfa*<br>• Dylai MRhTLl ddarparu gwybodaeth am leoliadau llwybrau a safleoedd storio addas. | M |
| | • Hyrwyddo cynlluniau llogi beiciau / llwybrau diogel i'r gwaith. | • Datblygu'r dudalen teithio ar y fewnrwyd<br>• Hyrwyddo cynlluniau drwy erthyglau yn y bwletin. | G |
| | • Ystyried cyflwyno cynllun rhannu ceir a pharcio a theithio os yw'n fuddiol. | | M |
| | iii. Adolygu a diweddaru'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth i hyrwyddo mentrau lleihau carbon:<br>• Dylai ceir llogi fod yn gerbydau allyriadau isel iawn bob amser. | • Wedi ei adolygu eisoes<br>• Cytundeb gan y Fforwm Partneriaeth Cyflogaeth<br>• Dylunio ap i archebu cerbyd fflyd | M |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | • Lleihau'r lwfans milltiroedd ceir ar gyfer cerbydau petrol / diesel yn raddol dros gyfnod o 5 mlynedd (ond cadw'r cyfraddau milltiroedd presennol ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn). | • Dim gweithredu ar hyn o bryd – gweithredu yn y tymor hir | G |
| | • Caniatáu hawliadau o'r cartref i'r gwaith i atal teithiau diangen i weithle i ddechrau gweithio (yn enwedig os yw'r cerbyd yn gerbyd allyriadau isel iawn). | • Ei gynnwys yn y Polisi Teithio a Chynhaliaeth newydd. Gweler 1i | G |
| | • Defnyddio fflyd cerbydau allyriadau isel iawn ar gyfer teithio ar gyfer busnes pan fo angen. | • Datblygu Ap ar gyfer archebu cerbyd fflyd<br>• Prynu cerbydau | M |
| | • Ystyried cymhellion ar gyfer teithio llesol gan gynnwys ar ffioedd llogi beiciau stryd pan fyddant ar waith. | | M |
| | iv. Datblygu a gweithredu cynlluniau teithio cynaliadwy ar gyfer safleoedd allweddol y Cyngor. | • Nodi safleoedd allweddol sydd angen cynllun teithio a chreu cynllun teithio cynaliadwy enghreifftiol. | G |
| | v. Sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael o'r dechrau gydag adeiladau newydd y Cyngor. | | G |
| **2.** *Fflyd:* Lleihau allyriadau carbon y Cyngor drwy symud i fflyd cerbydau allyriadau isel iawn. | i. Datblygu cynllun 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu fflyd a chapasiti gwefru. | • Datblygu cynllun ariannol ar gyfer amnewid cerbydau a fydd yn rhan o'r broses o bennu'r gyllideb wrth symud ymlaen | M |
| | ii. Disodli cerbydau a pheiriannau gyda cherbydau allyriadau isel iawn pan fo angen eu hadnewyddu. | • Mae holl brosesau caffael cerbydau a pheiriannau yn cynnwys ystyriaeth ar gyfer dewisiadau trydan | G |
| | iii. Ymchwilio i ddichonoldeb trosi cerbydau sy'n bodoli eisoes. | | G |
| | iv. Darparu beiciau pedal a thrydan i staff gynnal ymweliadau ac arolygiadau safle fel rhan o fflyd y Cyngor. | • Gellid cysylltu hyn â llogi beiciau ar y stryd | M |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | v. Cynyddu capasiti gwefru ar safleoedd y Cyngor wrth i'r fflyd gynyddu. | • Datblygu cynllun wedi'i gostio ar gyfer cyflwyno seilwaith cerbydau trydan ar gyfer y Neuadd Ddinesig, ysgolion a safleoedd gwasanaethau cymdeithasol<br>• Arolwg o weddill safleoedd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Arolygon comisiwn i ysgolion | G |
| | vi. Ymchwilio i ddichonoldeb banciau ynni ar y safle i storio trydan wrth gefn. | • Adolygu'r achos busnes ar gyfer batris storio gan ystyried y cynnydd mewn prisiau ynni | G |
| | vii. Cysylltu gallu gwefru â ffynonellau solar ac ynni adnewyddadwy ar raddfa fach eraill. | • Rhannu'r achos busnes gyda CSAMG ar gyfer cynyddu solar ffotofoltäig yn depo Telford<br>• Adolygu dichonoldeb pyrth ceir solar ar draws ein hystâd | M |
| | viii. Datblygu polisi gwaredu cerbydau. | • Adolygu'r polisi sydd ar waith i sicrhau ei fod yn addas at y diben | G |
| **3.** ***Rhwydwaith Trafnidiaeth:*** Rheoli'r rhwydwaith trafnidiaeth i alluogi pobl i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. | i. Blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy drwy:<br>• Fynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon (sydd eisoes ar waith). | | G |
| | • Gwneud cais am bwerau troseddau traffig sy'n symud. | • Gwnaed y penderfyniad i wneud cais am y pwerau hyn.<br>• Adroddiad y Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cais.<br>• Cychwyn y broses gwneud cais gyda Llywodraeth Cymru | M |
| | • Mynd i'r afael â phroblemau parcio ar y palmant yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. | • Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd | G |
| | • Mabwysiadu hierarchaeth newydd o ran defnyddwyr ffyrdd fel y'i cynhwysir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. | • Mabwysiadu'r "Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy" fel y nodir yn Llwybr Newydd. Bydd yr hierarchaeth yn berthnasol i'r holl brosiectau, gweithgareddau, polisïau a chynlluniau seilwaith y Cyngor sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.<br>• Bydd pob polisi a chynllun yn y dyfodol yn cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion hyn lle bo hynny'n berthnasol<br>• Bydd polisïau a chynlluniau presennol yn cael eu hadolygu yn unol â'r egwyddorion newydd | G |
| | • Gweithredu terfyn o 20 milltir yr awr. | • Adolygu eithriadau | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn... | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | | • Cadarnhau'r eithriadau gyda Thrafnidiaeth Cymru<br>• Casglu ac adolygu data asedau arwyddion / llinellau<br>• Cynllunio ar gyfer ailddylunio'r rhwydwaith<br>• Cael gwared ar arwyddion diangen neu nad oes eu hangen mwyach yn gynnar<br>• Cychwyn prosesau GRhT ar gyfer dirymu ac eithriadau | |
| **4.** *Cynllunio Defnydd Tir a Chreu lleoedd*: Sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael o'r cychwyn cyntaf ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith gwefru trydan. | i. Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd teithio cynaliadwy. | • Archwilio ceisiadau cynllunio ar hap i sicrhau bod teithio cynaliadwy yn cael ei gynnig.<br>• Sicrhau bod Symudedd a Thrafnidiaeth yn brif faes pwnc y CDLl.<br>• Cynnal adolygiad o CCA Ansawdd yr Aer / CCA Teithio Cynaliadwy yn unol ag amserlenni adolygu. | G |
| | ii. Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a chanllawiau cynllunio eraill i gryfhau polisïau teithio cynaliadwy. | | G |
| 5. *Teithio Llesol:* Lleihau allyriadau carbon drwy flaenoriaethu | i. Gwella ac ehangu'r rhwydwaith teithio llesol presennol ar draws y ddinas i gysylltu cymunedau. | • Cwblhau rhaglen flynyddol o fesurau gwella a ariennir drwy ddyraniad Craidd Teithio Llesol a grantiau annibynnol LlC a grantiau eraill.<br>• Nodi ffynonellau cyllid posibl eraill i weithredu cynlluniau h.y. grantiau A106 a CFfG.<br>• Ymestyn y rhwydwaith yn dilyn cynlluniau statudol ac anstatudol cymeradwy | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| teithio llesol ar draws y ddinas. | ii. Ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol nesaf i lywio'r gwelliannau a'r blaenoriaethau ehangu. | • Rhaglen flaenoriaeth o gynlluniau i'w datblygu i alluogi'r tîm i ganolbwyntio cynigion am y 5 mlynedd nesaf<br>• Datblygu delweddau ar gyfer cynlluniau penodol er mwyn ymgysylltu â'r gymuned.<br>• Gweithio gydag ysgolion a phriffyrdd i ymgorffori 'Llwybrau Diogel' ar MRhTLl | G |
| | iii. Defnyddio'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol i ddatblygu map beicio cyhoeddus hygyrch newydd. | • Cynhyrchu a chyhoeddi map fydd ar gael drwy'r wefan ac mewn fformat copi caled | M |
| | iv. Hyrwyddo llwybrau a dewisiadau teithio llesol ar draws y ddinas. | • Pecyn cyflawn o waith hyrwyddo a nodwyd yn 2021. Mae hyn yn cynnwys:<br>- fideos o'r llwybrau teithio llesol sydd ar gael,<br>- cyfweliadau â defnyddwyr i annog newid ymddygiad,<br>- gwybodaeth am amseroedd teithio rhwng cyrchfannau,<br>- mapio ar gael i bawb gan gynnwys mynediad penodol i ysgolion ac o bell<br>• Cysylltu â grŵp newid ymddygiad i hyrwyddo drwy ddigwyddiadau yn y Ddinas | G |
| | v. Gweithredu cynllun llogi beiciau ledled y ddinas (i gynnwys e-feiciau). | • Cymeradwyo achos busnes a cheisio cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer y cynllun cyfan. | M |
| | vi. Cael gwared ar rwystrau i deithio llesol trwy osod hybiau parcio / beicio diogel, cyrbau isel, mynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon a gwella diogelwch. | • Cwblhau prosiect 'Gap' – storio beiciau yng nghanol y ddinas<br>• Dechrau cyflwyno storfeydd beiciau ar y stryd ac oddi ar y stryd gan gynnwys storfeydd beiciau mewn meysydd parcio aml-lawr | G |
| **6.** *Trafnidiaeth Gyhoeddus*: Annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na'r defnydd o geir. | i. Gwella gwybodaeth teithio mewn safleoedd bysus i annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. | • Adolygu seilwaith presennol amserlenni a gwybodaeth mewn safleoedd bws a'r orsaf fysus, gan gynnwys darpariaeth Amser Real | M |
| | ii. Gweithredu'r cynllun peilot gwasanaeth Fflecsi (gwasanaeth sy'n ymateb i'r galw). | • Cynnal 3 chynllun gwasanaeth fflecsi presennol Cyngor Dinas Casnewydd.<br>• Parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar eu cynllun peilot (contract Trafnidiaeth Cymru ac ariannu Fflecsi) | G |
| | iii. Sefydlu rhwydwaith bysus rhanbarthol (Rhwydwaith Cyfeirio). | • Gweithio gyda chyllidwyr i gynnal rhwydwaith bysus craidd | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | iv. Parhau i gefnogi'r rhwydwaith bysus sy'n gymdeithasol angenrheidiol. | • Gweithio gyda chyllidwyr i barhau i gefnogi'r rhwydwaith bysus sy'n gymdeithasol angenrheidiol. | G |
| | v. Parhau i hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i leihau allyriadau. | • Gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus<br>• Datblygu mentrau yng Nghasnewydd i hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus<br>• Parhau i ddarparu gwell seilwaith i weithredu fel ffenestr siop | G |
| | vi. Darparu seilwaith bysus sy'n cael ei bweru'n gynaliadwy (llochesi bws wedi'u pweru gan yr haul) lle bo hynny'n bosibl. | • Sicrhau bod pob lloches newydd yn cael ei bweru gan yr haul i leihau'r effaith amgylcheddol a'r gost o'i chysylltu â'r prif gyflenwad | G |
| | vii. Gweithio mewn partneriaeth ar y gwaith o hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau'r rhwystrau rhag ei defnyddio, fel diogelwch, cost a hygyrchedd | • Gweithio gyda phartneriaid allweddol i leihau rhwystrau | G |
| **7.** *Seilwaith Pwyntiau Gwefru*: Cynyddu capasiti gwefru ar draws y ddinas. | i. Cynyddu unedau gwefru cyhoeddus ar draws y ddinas gan ystyried safleoedd strategol i gyd-fynd â'r rhwydwaith ehangach. | • Mapio lleoliadau gwefru cyhoeddus presennol yng Nghasnewydd<br>• Nodi lleoliadau ar gyfer hybiau gwefru cyflym ychwanegol<br>• Nodi cyfleoedd ariannu<br>• Archwilio safleoedd CDC sydd â PV ar hyn o bryd i helpu i leihau'r galw ar y grid<br>• Olrhain data gwefru mewn perthynas â thargedau CYAL | G |
| | ii. Datblygu polisi gosod pwyntiau gwefru ar y stryd ar gyfer Casnewydd. | • Adolygu'r polisïau presennol a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol eraill<br>• Datblygu polisi penodol ar gyfer Casnewydd | G |
| | iii. Cynyddu nifer y preswylwyr heb le parcio oddi ar y stryd sydd o fewn taith gerdded o 5 munud o bwynt gwefru. | • Nodi'r ardaloedd â'r dwysedd uchaf o eiddo heb le parcio oddi ar y stryd<br>• Mapio pwyntiau gwefru cyhoeddus presennol yng Nghasnewydd<br>• Edrych ar seilwaith lleol yn yr ardal<br>• Ymchwilio i gyfleoedd ariannu<br>• Datblygu cynllun cyflwyno fesul cam | G |
| | iv. Gweithio mewn partneriaeth â'r rhanbarth i ddatblygu dull rhanbarthol o ran y seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan. | • Parhau i weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Casnewydd<br>• Archwilio'r cyfle i gadw rhwydweithiau cyson ledled yr ardal er mwyn gwneud gwefru cerbydau'n haws i drigolion | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| **8.** *Ysgolion*: Lleihau allyriadau carbon o deithio o'r cartref i'r ysgol. | i. Cyflwyno rhaglenni teithio llesol i ysgolion wrth i'r cyllid ddod ar gael. | • Ymgymryd ag ymarfer mapio cychwynnol o'r rhaglenni sydd ar waith ar hyn o bryd<br>• Edrych ar ba ysgolion y gallwn wella eu llwybrau diogel i'w cynnwys yn y map Teithio Llesol nesaf | G |
| | ii. Gwella cysylltiadau teithio llesol diogel i ysgolion. | • Asesiadau llwybrau cerdded i ysgolion<br>• Datblygu mapiau teithio llesol ar gyfer ysgolion. | G |
| | iii. Cyflwyno ymgyrchoedd gwrth-segur mewn ysgolion wrth i gyllid ddod ar gael. | • Bydd ymgysylltu'n agosach ag ysgolion trwy grwpiau ARhAA ac fel mesur CGAA yn sail i'r ymgyrchoedd gwrth-segur. | G |
| | iv. Cynllun peilot strydoedd di-draffig ger ysgolion. | • Gweithio gyda Sustrans i ymgysylltu â rhanddeiliaid<br>• Wedi'i gysylltu â throseddau traffig sy'n symud | M |
| | v. Defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol lle bo hynny'n bosibl. | • Nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a rhoi tocynnau tymor i ddisgyblion cymwys | G |
| | vi. Dadansoddi canlyniadau astudiaeth contract tacsis a bysus o'r cartref i'r ysgol i gytuno ar y dyddiad pan fydd cerbydau allyriadau isel iawn yn dod yn orfodol. | • Cysylltu â gwaith rhanbarthol sydd eisoes wedi'i wneud CENEX a P-RC | M |
| | vii. Sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael o'r cychwyn cyntaf ym mhob ysgol newydd, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith gwefru trydan. | • Sicrhau bod pob cais cynllunio yn cael ei adolygu gan swyddog Ansawdd Aer | G |
| **9.** *Tacsis*: Gweithredu polisïau i gefnogi'r symudiad i fflyd tacsis allyriadau isel. | i. Datblygu cynllun peilot tacsis allyriadau isel iawn. | • Datblygu cynllun peilot / cynllun benthyg tacsis trydan pellach sy'n cael ei arwain gan ddata. | C |
| | ii. Gosod pwyntiau gwefru ar gyfer tacsis | | C |
| | iii. Lleihau allyriadau o'r fflyd tacsis drwy weithredu gofyniad sylfaenol o gerbydau Ewro 6 ar gyfer trwyddedu. | | M |
| | iv. Pob tacsi trwydded newydd i fod yn gerbyd allyriadau isel iawn. | | A |

## 6.5 Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gyrchwn

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| 1. *Mesur:*<br>*Ennill dealltwriaeth dda o'n $CO_2e$* amcangyfrifedig y flwyddyn o nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd, a'i broffil allyriadau a'i sylfaen cyflenwyr. | i. Cynnal ymarfer sylfaenol cychwynnol i amcangyfrif yr allyriadau carbon o brosesau caffael. | Cwblhau bob blwyddyn. | M |
| | ii. Datblygu offeryn mesur i roi gwybodaeth fanylach am y meysydd ffocws (gellid hwyluso hyn drwy'r offeryn gwerth cymdeithasol isod). | • Ymchwilio i offer mesur eraill<br>• Gweithio gyda chaffael a deall sut mae'r offeryn gwerth cymdeithasol presennol yn gweithio | G |
| | iii. Gweithio gyda chyflenwyr i adolygu a mesur ôl troed carbon contractau presennol. | • Datblygu holiadur i'w ddefnyddio<br>• Dewis oddeutu pedwar contract allweddol ac ymgysylltu â'r cyflenwyr i gwblhau'r holiadur | M |
| | iv. Defnyddio'r wybodaeth hon a gafwyd yn iii i lywio cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer manylebau tendro newydd, holiaduron carbon a gofynion ThCM. | • Datblygu templedi a dogfennaeth dendro newydd i'w defnyddio ar draws y broses porth caffael.<br>• Bydd rhaid i gontractau adrodd am garbon yn unol â NPCC 06/21 Bydd NPCC 12/21 yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio manylebau a holiaduron newydd.<br>• Cytuno ar werth contractau y bydd rhaid iddynt adrodd am garbon. | G |
| 2. *Canllawiau, offer a hyfforddiant:*<br>*Datblygu canllawiau, offer a hyfforddiant i'r sefydliad i gefnogi staff i leihau carbon drwy gydol cylch bywyd prosesau caffael.* | i. Datblygu proses porth caffael y Cyngor ac adeiladu arni i ystyried y newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon a chynaliadwyedd yn llawn. | • Datblygu a dechrau defnyddio'r ffurflenni newydd.<br>• Ychwanegu'r ffurflenni at dudalennau'r fewnrwyd. | G |
| | ii. Ystyried y newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon ar ddechrau'r broses cynllunio caffael a datblygu contractau drwy:<br>• ddatblygu templed amserlen weithredu tendro newydd a<br>• defnyddio blaengynlluniau gwaith blynyddol i helpu i lywio tendrau sydd ar ddod. | • Datblygu a dechrau defnyddio'r ffurflenni newydd.<br>• Tîm Lleihau Carbon i gynorthwyo ac adolygu mesurau lleihau carbon mewn cynigion prosiect cyn eu cymeradwyo drwy'r Porth.<br>• Y Tîm Caffael i ddiweddaru a dechrau defnyddio Amserlen Camau Gweithredu Tendrau wedi'i diweddaru. | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | iii. Gweithredu offeryn gwerth cymdeithasol (e.e. ThCM Cenedlaethol) sy'n ystyried y newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon i helpu gyda gwerthuso. | • Cytuno ar werth tendrau fydd yn rhaid cyflawni holiadur carbon a ThCM ar eu cyfer<br>• Datblygu a dechrau defnyddio ThCM Cenedlaethol a holiadur carbon ar gyfer tendrau sydd uwchlaw'r gwerth y cytunwyd arno. | G |
| | iv. Rhoi hyfforddiant priodol i gynnal y prosesau newydd ar gyfer:<br>• staff caffael<br>• staff/rheolwyr sy'n cynnal y broses gaffael<br>• penderfynwyr porth | • Cynhyrchu deunydd i hysbysu a hyfforddi cydweithwyr yn y Prosesau Porth newydd | M |
| | v. Defnyddio rhwydweithio a chydweithio i chwilio am arfer gorau a rhannu syniadau. | • Presenoldeb yn y Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol<br>• Y Tîm Lleihau Carbon i rannu gwahoddiadau i grwpiau, cyfarfodydd a gweminarau perthnasol wrth iddynt gael eu hysbysebu. | G |
| 3. *Partneriaeth: Arwain drwy esiampl a gweithio gyda'n partneriaid caffael strategol, o'r sector preifat a chyhoeddus, i gysoni dyheadau o ran adfer natur, y newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon a'r economi gylchol.* | i. Sicrhau bod Newport Norse yn cymryd rhan lawn yn yr agenda sero net carbon hon ac yn cynnal prosesau caffael yn unol â hynny. | • Trafod gyda'r Bwrdd Cyfalaf am brosiectau nad ydynt yn rhai addysgol sydd hefyd yn rhan o'r broses hon. | G |
| | ii. Ystyried a oes angen yr un gwaith craffu carbon ar dendro Norse Casnewydd yn unol â phrosesau porth caffael diwygiedig. | | G |
| | iii. Ymgysylltu â phartneriaid allweddol eraill (gan gynnwys cyflenwyr strategol) i chwilio am gyfleoedd i leihau allyriadau carbon yn ystod oes contractau. | • Nodi pa gontractau sydd i'w blaenoriaethu yn gyntaf | M |
| | iv. *Sicrhau bod contractau cydweithredol yn cynnwys mesurau lleihau carbon a bod gwaith rheoli contractau cydweithredol yn cynnwys y gallu i gasglu data gydol oes a cheisio gwelliannau parhaus.* | • Gweithio gyda sefydliadau contractio arweiniol cyn ymrwymo i gontractau cydweithredol, a sicrhau bod mesurau'n cwrdd â gofynion CDC cyn ymrwymo iddynt.<br>• Y tîm caffael i sicrhau bod unrhyw gontractau cydweithredol yn mynd i'r afael â hyn – mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo gydag Awdurdodau Lleol eraill<br>• Bydd y tîm caffael yn monitro trefniadau ac yn sicrhau bod mesurau lleihau carbon ar waith | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| 4. *Ymgysylltu:*<br>*Cymell cyflenwyr drwy feini prawf gwerthuso cymesur i chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i helpu i adfer natur a lleihau effeithiau carbon a'r hinsawdd.* | i. Defnyddio ThCM Cenedlaethol Cymru yn feini prawf gwerthuso y gellir eu sgorio mewn tendrau gwerth canolig ac uchel. | • Diwygio canllawiau a dogfennaeth dendro i gynnwys adran Hinsawdd/Carbon newydd sy'n manylu ar yr ymgyrch i gyrraedd sero net a'r disgwyliadau ar ein cyflenwyr.<br>• Diwygio canllawiau a dogfennaeth dendro i gynnwys cwestiynau y gellir eu sgorio a fydd yn cael eu gwerthuso ac a fydd yn bwydo i mewn i'r gwerthusiad cyffredinol | M |
| | ii. Briffio cyflenwyr posibl ar yr angen i leihau carbon yn ystod pob proses gaffael. | Gweler 4i<br>• Ymgymryd â digwyddiadau i gyflenwyr neu ddulliau cyfathrebu eraill i hysbysu cyflenwyr am ofynion lleihau carbon. | M |

## 6.6 Ein Rôl Ehangach

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| 1. *Creu lleoedd a Rheoli Adeiladu:*<br>*Lleihau allyriadau carbon a chefnogi natur drwy ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, carbon isel, dylanwadu ar ynni carbon isel ac adeiladu cymunedau cryf.* | vi. Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau'n cyd-fynd yn llwyr â Pholisi Cynllunio Cymru 11, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Siarter Creu Lleoedd Cymru. | • Adolygu adroddiad monitro blynyddol CDLl i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth (a gyhoeddwyd ym mis Hydref). | G |
| | vii. Sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael o'r cychwyn cyntaf ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith gwefru trydan drwy:<br>• Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd teithio cynaliadwy. | • Archwilio ceisiadau cynllunio ar hap i sicrhau bod teithio cynaliadwy yn cael ei gynnig.<br>• Sicrhau bod Symudedd a Thrafnidiaeth yn brif faes pwnc y CDLl. | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | • Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a chanllawiau cynllunio eraill i gryfhau polisïau teithio cynaliadwy. | | G |
| | viii. Annog ein partneriaid i symud tuag at ddatblygiadau carbon niwtral newydd sy'n ystyried natur ac argyfwng yr hinsawdd ac yn ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur. | • Sicrhau bod y gofyniad ar gyfer datblygu cynaliadwy wedi'i gynnwys yng ngweledigaeth ac amcanion y CDLl Newydd.<br>• Rhaid i'r holl ymatebion cyn ymgeisio gynnwys dolen i wybodaeth am ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur<br>• Sampl ceisiadau cynllunio ar hap i sicrhau bod datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn cael eu cynnig gan arweinydd Ecoleg. | G |
| | ix. Annog datblygiadau i gynnwys rhwydweithiau gwres lleol o fewn datblygiadau mawr. | • Monitro nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys rhwydweithiau gwres. | G |
| | x. Nodi targed ynni adnewyddadwy ar gyfer Casnewydd a sicrhau bod digon o dir yn cael ei ddyrannu i gyrraedd y targed hwnnw. | • Targed wedi'i nodi yn y CYAL<br>• Y Tîm Cynllunio a Newid yn yr Hinsawdd i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hyn wedi'i gynnwys yn y CDLl newydd. | G |
| | xi. Sicrhau bod datblygwyr yn bodloni gofynion perygl llifogydd cenedlaethol ar gyfer datblygiadau newydd. | • Monitro nifer y ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl brofion perygl llifogydd. | G |
| 2. *Ynni:*<br>*Nodi a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i'r system ynni leol i ddatgarboneiddio gwres, trydan a thrafnidiaeth leol ac yn gwireddu cynhyrchiad ynni adnewyddadwy lleol.* | i. Datblygu Cynllun Ynni Ardal Lleol ar gyfer ardal Casnewydd a fydd yn llywio, siapio a galluogi'r newid i ynni carbon sero-net ar gyfer ardal gyfan, yn unol â strategaethau ynni rhanbarthol a threfniadau llywodraethu. | • Cytuno ar Gynllun Ynni Ardal Leol yng nghyfarfod y Cabinet fis Mehefin | G |
| | ii. Cyflawni cam cyntaf y Cynllun Ynni Ardal Leol, sy'n dangos ymyriadau ynni â blaenoriaeth i ddiwallu ein hanghenion pŵer, gwres a thrafnidiaeth ar gyfer y ddinas. | • Penodi Rheolwr Rhaglen.<br>• Datblygu cynllun tymor byr a hirdymor ar gyfer cyflawni'r cam hwn.<br>• Datblygu cynllun ar gyfer trefniadau cyllido i gefnogi a galluogi'r gwaith o gyflwyno'r CYAL.<br>• Gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill i ddatblygu cyfleoedd ynni ar raddfa fawr.<br>• | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | iii. Gweithio i un weledigaeth a chynllunio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i gyflawni ystod o brosiectau ar draws gwres, pŵer a thrafnidiaeth i ddatgarboneiddio'r ardal a'r rhanbarth lleol. | • Gweler pwynt 2i<br>• Gwneud cais am gyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin | G |
| | iv. Cefnogi targed ynni perchnogaeth leol adnewyddadwy Llywodraeth Cymru [cynhyrchu ynni-yng-Nghymru-2019] | • Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy ar dir CDC<br>• Edrych ar gyfleoedd ar gyfer gwifrau / rhwydweithiau preifat<br>• Mapio holl safleoedd y sector cyhoeddus i weld cyfleoedd i rannu ynni | G |
| | v. Codi ymwybyddiaeth a gorfodi'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer eiddo rhent. (Mae angen sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) o A i E ar yr eiddo hyn er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.) | Eiddo â TPY F a G<br>• Cyflawni canlyniadau gorfodi sy'n gysylltiedig â hysbysiadau gorfodi.<br>• Monitro'n barhaus eiddo anghyfreithlon newydd sy'n dod ar y farchnad.<br>Eiddo heb TPY<br>• Cyflawni canlyniadau gorfodi sy'n gysylltiedig â'r landlordiaid hynny sy'n gweithredu heb TPY.<br>• Monitro'n barhaus eiddo anghyfreithlon newydd sy'n dod ar y farchnad. | G |
| **3.** *Llifogydd*:<br>*Cynyddu gwytnwch o ran yr hinsawdd a lliniaru yn erbyn llifogydd ledled y ddinas gan ddefnyddio ystod o fesurau gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd naturiol.* | iv. Datblygu strategaeth ddraenio gynaliadwy ar gyfer Casnewydd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. | • Cynnal gweithdai rheolaidd gyda'r CCDC i ddatblygu canllaw dylunio SDCau drafft ar gyfer CDC | G |
| | v. Diweddaru cynllun a strategaeth rheoli perygl llifogydd yn unol â'r strategaeth genedlaethol. | • Aros i LlC gyhoeddi templed newydd ar gyfer y strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol newydd<br>• Swyddog Perygl Llifogydd i ddechrau gweithio ar dempled drafft presennol LlC | G |
| | vi. Gwneud cais am gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau wrth iddo ddod ar gael. | • Llunio ceisiadau am arian grant i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24<br>• Rheoli cynnydd y cynlluniau draenio a ariennir gan refeniw ar raddfa fach a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23.<br>• Llunio ceisiadau am ofynion cyllid grant cyfalaf ar gyfer 2023/24 | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | | • Rheoli cynnydd y cynlluniau cyfalaf presennol a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23. | G |
| | vii. Ymchwilio i unrhyw broblemau gydag asedau sy'n bodoli eisoes a diweddaru'r cronfeydd data asedau llifogydd. | • Ymchwiliad parhaus i achosion o lifogydd gan gynnwys cynnal arolygon teledu cylch cyfyng a ariennir gan grant refeniw Llywodraeth Cymru a gwaredu llaid mewn ardaloedd problemus hysbys.<br>• Pan nodir bod angen gwaith pellach, gellir llunio rhestr o gynlluniau posibl ar gyfer ceisiadau cyllid grant cyfalaf/refeniw yn y dyfodol i LlC.<br>• Diweddariad parhaus o gronfa ddata asedau llifogydd Geoenviron, gan gynnwys arolygon cyflwr asedau a ariennir gan grant refeniw. | G |
| | viii. Gweithio gyda phartneriaid Dŵr Cymru, CNC ac awdurdodau lleol eraill i fyny'r afon i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud ag amddiffynfeydd rhag llifogydd. | • Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol yng Ngrŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru, CCDC eraill, Dŵr Cymru, CNC a LlC ynghylch perygl llifogydd. | G |
| *4. Gwastraff:*<br><br>*Lleihau allyriadau carbon o reoli gwastraff er mwyn bod yn ddinas a chenedl ddiwastraff erbyn 2050.* | i. Arwain drwy esiampl ac ymgorffori egwyddorion ac arferion lleihau gwastraff ac economi gylchol ar draws adrannau'r Cyngor. | • Mewnbwn i themâu eraill cynllun newid yn yr hinsawdd lle bo hynny'n briodol – yn enwedig caffael<br>• Amnewid hybiau ailgylchu yn y Ganolfan Ddinesig gyda biniau newydd a brynwyd ym mis Ebrill 2020 er mwyn cysondeb. | G |
| | ii. Parhau i gyd-fynd ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i leihau gwastraff tirlenwi a chynyddu ailgylchu | • Y gyfradd ailgylchu ar gyfer 21/22 yw 67% - cynnal a gwella hyn yn 22/23.<br>• Nodi dulliau o dargedu a chyflawni cyfradd ailgylchu o 70% ar gyfer 2024/25<br>• Cynyddu cyfraddau ailgylchu mewn fflatiau a hefyd ailgylchu annomestig<br>• Parhau i weithio gyda sefydliadau ailddefnyddio (Wastesavers, Repair Café, Remake Newport ac ati) a chefnogi prosiectau trydydd sector, elusennol a gwirfoddol i leihau gwastraff. | G |
| | iii. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod monitro priodol ar waith i annog lleihau'r holl wastraff. | • Parhau i gwblhau adroddiadau statudol | G |
| | iv. Disodli cerbydau sbwriel y fflyd gydag ULEV pan fo angen eu hadnewyddu. | • Disodli cerbydau wrth iddynt ddod ar gael.<br>• Gweithio i ddatrys problemau gyda cherbydau a gwefru. | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | v. Cefnogi ein cymunedau i fod yn ddi-blastig - "Casnewydd ddi-blastig" | • Adolygu cynnydd yn erbyn Cynnig Plastig CDC<br>• Gweithio gyda'r tîm caffael i ddileu plastigau untro ar draws contractau – yn enwedig mewn ysgolion ac adeiladau'r Cyngor<br>• Cymryd camau dilynol o ran y cynllun ysgolion di-blastig – Parc y Jiwbilî, Glasllwch, Gwent Iscoed, Maendy, Ysgol Gynradd ac Uwchradd Caerllion, Ringland<br>• Gosod gorsafoedd ail-lenwi poteli dŵr ym mhob adeilad cyhoeddus CDC.<br>• Nodi grwpiau / gweithgareddau buddiant cymunedol | M |
| 5. *Digidol:*<br><br>*Defnyddio atebion digidol yn effeithiol i leihau a monitro allyriadau carbon.* | i. Datblygu strategaeth ddigidol newydd sy'n ystyried yn llawn ymrwymiadau'r Cyngor i newid yn yr hinsawdd a dyheadau sero net.<br>- Mynd ati i ystyried newid yn yr hinsawdd a chamau gweithredu cysylltiedig<br>- Yn cefnogi'r ffordd "normal newydd" o weithio a chamau gweithredu cysylltiedig.<br>- Darparu atebion technoleg sy'n lleihau'r angen am deithio gan gwsmeriaid a staff.<br>- Gwneud y defnydd gorau o atebion digidol i leihau'r defnydd o bapur gan gynnwys digideiddio cofnodion papur lle bo hynny'n bosibl<br>- Lleihau'r storio data i leihau gofynion seilwaith a lleihau'r defnydd o ynni. | • Cwblhau'r strategaeth ddigidol<br>• Dechrau'r gwaith o ailddatblygu gwefan CDC | M |
| | ii. Mudo i atebion technoleg mwy effeithlon o ran ynni gan gynnwys canolfan ddata a darpariaeth cwmwl gan fanteisio ar arbedion maint o ran effeithlonrwydd oeri. | • Blaenoriaethu mudo'r system TG i'r cwmwl<br>• Y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) yn mudo partneriaid i ganolfan ddata Vantage yn 22/23 | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | iii. Gwneud y defnydd gorau o atebion digidol fel rhwydwaith Rhyngrwyd Pethau (IoT) i fesur camau gweithredu newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon. Er enghraifft, ansawdd aer, perygl llifogydd, allyriadau carbon | • Profi rhwydwaith Rhyngrwyd Pethau (IoT) ymhellach | G |
| | iv. Darparu gwybodaeth a data i hwyluso penderfyniadau sefydliadol ac unigolion gwybodus ynghylch newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon. | • Parhau i ddatblygu Hyb Gwybodaeth Casnewydd<br>• Gweithio ar draws y Cyngor i rannu data perthnasol | G |
| | v. Gweithio gyda'r Partner TG, Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) Cymru i ystyried mesurau newid yn yr hinsawdd ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau a chymryd camau priodol i leihau'r defnydd o ynni a lleihau carbon a gwastraff. | • Datblygu rhaglen o weithgareddau perthnasol gyda'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir | M |
| | vi. Ystyried effaith ar yr hinsawdd a lleihau carbon wrth brynu offer TG. | • Datblygu ac adolygu polisïau a chamau gweithredu cysylltiedig | M |
| | vii. Ymgorffori egwyddorion arbed, ailddefnyddio, ailgylchu mewn polisïau ac arferion TG. | • Adolygu polisïau a chamau gweithredu cysylltiedig | M |
| *6. Partneriaethau a Chymunedau:*<br><br>*Cydweithio â phartneriaid a chymunedau i hyrwyddo adferiad yr hinsawdd a natur ledled y ddinas.* | i. Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod cymunedau'n teimlo'n gysylltiedig â natur a bod ganddynt fynediad hawdd at fannau gwyrdd a glas diogel o ansawdd ar gyfer iechyd, lles, chwarae a hamdden a grymuso cymunedau i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a rheoli mannau gwyrdd lleol. | • Parhau i gyflawni nodau ac amcanion yr ymyrraeth Werdd a Diogel o dan y Cynllun Lles presennol<br>• Parhau i ymgysylltu â Grid Gwyrdd Gwent ac Awdurdodau Lleol eraill Gwent i nodi prosiectau lle byddai dull rhanbarthol o weithredu o fudd<br>• Datblygu Cynllun Gweithredu Lleol (yr Amgylchedd) a fydd yn nodi cyfleoedd i weithio gyda Phartneriaid o dan y Cynllun Lles newydd (2023-28)<br>• Prosiect Gerddi Cymunedol<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer datblygu Seilwaith Gwyrdd yng nghanol y ddinas ac mewn ardaloedd trefol ehangach | M |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | ii. Sicrhau bod cymunedau a phartneriaid partneriaeth Casnewydd yn Un yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth hinsawdd Casnewydd gyfan. | • Gweithio gyda phartneriaid i ddylunio a datblygu cynllun gweithredu ymgysylltu â'r gymuned a busnesau | M |
| | iii. Sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys busnesau lleol yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol | • Does dim angen gweithredu pellach - mae'r cyfan eisoes wedi'u cyflawni | G |
| | iv. Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau ledled Casnewydd a Sir Fynwy i sicrhau adferiad natur, gan gofio bod gan ein hadnoddau naturiol rôl allweddol i'w chwarae o ran lliniaru ac ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) | • Gweithio gyda phartneriaid Awdurdod Lleol Gwent<br>• Mae PNL yn ymgysylltu â chymunedau lleol i bennu blaenoriaethau lleol | M |
| | v. Sicrhau bod yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y clwstwr diwydiannol a'r sector preswyl, yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Ynni Ardal Leol. | • Dod yn rhan o SWIC i sicrhau ymgysylltiad â diwydiant.<br>• Ymgysylltu â WPD ynghylch cysylltu asedau cenhedlaeth newydd<br>• Ymgysylltu â WWU ynghylch y rhwydwaith hydrogen sydd ei angen i gefnogi diwydiant a'r potensial ar gyfer cerbydau tanwydd hydrogen<br>• Cydweithio a chefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.<br>• Cydweithio ar draws Awdurdodau Lleol ledled Cymru i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau ynni ar raddfa fawr. | M |
| | vi. Ymgorffori cyfleoedd lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd yn y broses cynllunio gweithredoedd ansawdd aer gyda chymunedau a rhanddeiliaid. | • Adran ar newid yn yr hinsawdd: ei synergeddau lliniaru ac ansawdd aer strategol yn y CGAA.<br>• Cwblhau CGAA drafft i'w graffu arno ym mis Rhagfyr gan aelod o'r cabinet.<br>• Parhau i weithio gyda grwpiau ansawdd aer ar draws ARhAAau ac edrych ar lledaenu negeseuon y tu hwnt i gymunedau ARhAA. | G |

| Blaenoriaethau | I gyflawni hyn byddwn yn… | Camau i'w cymryd yn 2022-23 | CMG |
|---|---|---|---|
| | | • Ymestyn ymrwymiad maniffesto Llafur i ddigwyddiadau Diwrnod Aer Glân blynyddol i gynnwys perthnasoedd Newid yn yr Hinsawdd fel rhan o'r digwyddiadau hyn lle bo hynny'n bosibl. | |

# 7 ATODIAD B - CYNLLUNIAU GWEITHREDU 2023/24

## 7.1 Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol

| *Maes Blaenoriaeth* | Cam Gweithredu: | Dyddiad |
|---|---|---|
| *1. Ymddygiad a Modelau Rôl:*<br>*Bydd ein haelodau etholedig a'n gweithlu yn cael eu hannog a'u cefnogi i ystyried eu cyfraniad unigol at fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, a bydd arweinwyr yn modelu disgwyliadau'r Cyngor.* | i. Pob partner Busnes AD (hŷn) i gael hyfforddiant Llythrennedd Carbon ac AD i nodi timau eraill a fyddai'n elwa ar yr hyfforddiant | Mawrth 24 |
| | ii. Ymgorffori llythrennedd carbon / newid hinsawdd yn narpariaeth dysgu a datblygu ar gyfer uwch reolwyr a staff eraill, gan gynnwys darparu hyfforddiant/e-ddysgu gorfodol. | Mawrth 24 |
| | iii. Parhau i gyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon ac eco ar gyfer aelodau etholedig | Mawrth 24 |
| | iv. Cyflwyno sesiwn ar Newid yn yr Hinsawdd i bob Aelod (ar lefel sefydliadol a CYAL) | Rhagfyr 23 |
| | v. Cefnogi a datblygu gwaith y Rhwydwaith Staff Newid yn yr Hinsawdd | Mawrth 24 |
| | vi. Archwilio opsiynau i'r uwch dîm arwain barhau i ymddwyn fel modelau rôl – e.e. dilyn ymrwymiadau o hyfforddiant Llythrennedd Carbon | Mawrth 24 |
| 2. *Perfformiad a Llywodraethu:*<br>*Bydd ein swyddogaethau democrataidd a chorfforaethol yn ymrwymedig i fod yn garbon sero-net erbyn 2030, a bydd ein penderfyniadau, ein fframwaith llywodraethu a'n monitro perfformiad yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.* | i. Adolygu templedi adroddiad democrataidd a'u diwygio i ymgorffori newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio. | Rhagfyr 23 |
| | ii. Adroddiad blynyddol Newid yn yr Hinsawdd – gorgyffwrdd ag adroddiadau a chyfathrebiadau eraill. | Tachwedd 23 |
| | iii. Archwilio'r opsiwn i gynnwys goblygiadau/addasiadau newid yn yr hinsawdd o fewn cynlluniau gwasanaeth | Mawrth 24 |
| | iv. Datblygu camau er mwyn adrodd a rheoli perfformiad sy'n ymwneud â'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd (MiHub) | Mawrth 24 |

| | | |
|---|---|---|
| 3. *Hyrwyddo ac Ymgysylltu:*<br>*Rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i gynnydd a chyflawniadau i ymgorffori dyheadau i fod yn garbon sero-net erbyn 2030* | i. Cynllun cyfathrebu mewnol – staff ac aelodau. Cynnwys pecyn cyfathrebu Edrych ar sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymsefydlu o fewn y sefydliad. | Rhagfyr 23 |
| | ii. Cynllun cysylltiadau allanol Cynnwys pecyn cyfathrebu | Rhagfyr 23 |
| | iii. Cynnal archwiliad mewn ysgolion i greu trosolwg o'r hyn sy'n digwydd ynddynt ar hyn o bryd a defnyddio'r canfyddiadau i lywio dysgu ac adnoddau proffesiynol yn y dyfodol. | Gorffennaf 23 |
| | iv. Cipio Astudiaethau Achos ac enghreifftiau o waith sy'n digwydd mewn ysgolion er mwyn rhannu arferion. | Rhagfyr 23 |
| | v. Hyrwyddo gwaith Dinas Casnewydd ymhellach drwy hyrwyddo'r gweithdai sydd ar gael mewn ysgolion ac ychwanegu diwrnod Newid yn yr Hinsawdd at galendr dyddiau ysgol i'w nodi. Hefyd hyrwyddo adnoddau perthnasol eraill i ysgolion. | Mawrth 24 |
| | vi. Gweithio gyda grwpiau mewnol eraill i ledaenu cysylltiadau newid yn yr hinsawdd, e.e. cydraddoldeb strategol a'r Gymraeg. Cynnal ymarfer mapio i weld lle y gellid gwneud cysylltiadau. | Medi 23 |
| 4. *Ymrwymiad Ariannol:*<br>*Cynllunio ar gyfer effeithiau ariannol newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod ein cynllunio ariannol tymor canolig i dymor hir yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon lle bo hynny'n bosibl.* | i. Fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn Newid yn yr Hinsawdd | Medi 23 |
| | ii. Ymgorffori egwyddorion ACLl mewn buddsoddiadau a phensiynau | Mawrth 24 |
| | iii. Adolygu templedi a ffurflenni cyllid i sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynnwys lle bo hynny'n berthnasol | Medi 23 |

## 7.2 Ein Hadeiladau

| *Maes Blaenoriaeth* | **Cam Gweithredu:** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| 1. *Adeiladau Newydd y Cyngor:* | i. Mabwysiadu a chadw at bolisi Adeiladau Newydd | Mehefin 23 |

| | | |
|---|---|---|
| *Bydd pob adeilad newydd yn garbon sero-net.* | ii. Sicrhau bod costau cyfalaf ar gyfer adeiladau carbon sero-net yn cael eu talu | Mawrth 24 |
| | iii. Prosiect adeiladau newydd CDC nesaf i fod yn Garbon Sero-Net o ran y broses adeiladu (carbon ymgorfforedig) yn ogystal â'r ynni a ddefnyddir i'w gweithredu fel achos prawf. | Mawrth 24 |
| | iv. Meintioli effaith carbon adeiladau newydd a goleuadau stryd a ychwanegwyd ers ein blwyddyn sylfaen o adrodd ar garbon, ac archwilio a ellid defnyddio'r data hwn i ragamcanu allyriadau yn y dyfodol. | Mehefin 23 |
| *2. Ôl-osod Adeiladau:*<br>*Ôl-osod dwfn i greu adeiladau ynni carbon sero-net.* | i. Ysgrifennu a mabwysiadu datganiad polisi a dull ar gyfer ôl-osod adeiladau | Medi 23 |
| | ii. Gwresogi Carbon Isel - Symud o ddulliau gwresogi tanwydd ffosil i wresogi carbon isel ar 5 adeilad arall | Mawrth 24 |
| | iii. Nodi rhestr flaenoriaeth o asedau ar gyfer ôl-osod. (Yn rhannol ddibynnol ar 3.i) | Medi 23 |
| | iv. Ymgymryd ag arolygon ôl-osod yn unol â PAS 2038 i lywio'r dull ôl-osod wedi'i optimeiddio ar 20 o adeiladau. (Yn rhannol ddibynnol ar 2.iii) | Mawrth 24 |
| | v. Cynyddu ein gallu ffotofoltäig i 3MW | Mawrth 24 |
| | vi. Ôl-osod 3 system batris storio yn ein hystâd a phrosiect peilot i lywio'r broses o'u cyflwyno yn y dyfodol | Mawrth 24 |
| *3. Rhesymoli Adeiladau:*<br>*Archwilio asedau'r presennol i ddeall eu heffaith carbon hirdymor gyda'r nod o'u defnyddio'n well yn strategol.* | i. Cynhyrchu amcangyfrif cost ar gyfer datgarboneiddio'r ystad | Mehefin 23 |
| | ii. Cefnogi datblygiad Bwrdd Rhaglen Rhesymoli Asedau a Byrddau Prosiect cysylltiedig i sicrhau bod Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei gynrychioli ar lefelau priodol | Mawrth 24 |
| | iii. Sicrhau bod adolygiad o Gynllun henebion rhestredig yn cynnwys elfennau hinsawdd/datgarboneiddio priodol | Rhagfyr 23 |

| | | |
|---|---|---|
| *4. Ynni Gweithredol:*<br>*Lleihau'r defnydd o ynni ar draws ein hystad mewn ffyrdd nad oes angen gwariant cyfalaf arnynt* | i. Drafftio a mabwysiadu polisi ynni gweithredol | Medi 24 |
| | ii. Datblygu a chyhoeddi adroddiadau chwarterol ar ynni a chost cymharol ar gyfer adeiladau a gwasanaethau allweddol – rhoi gwybod am eithriadau | Medi 23 |
| | iii. Ysgolion – ychwanegu'r defnydd o ynni at agendâu cyfarfodydd rheolwr busnes a chlystyrau nesaf i drafod y defnydd o ynni | Mehefin 23 |
| | iv. Ysgolion – archwilio opsiynau cyllido i gofrestru pob safle gyda Energy Sparks | Medi 23 |
| | v. Gweithredu prosiect lliniaru ynni (wedi'i fonitro gan dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth) | Mawrth 24 |

## 7.3 Ein Tir

| *Maes Blaenoriaeth* | **Cam Gweithredu:** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| **1.** *Portffolio Tir:*<br>*Archwilio asedau presennol i ddeall eu heffaith carbon hirdymor bosibl gyda'r nod o'u defnyddio'n well yn strategol.* | i. Cefnogi datblygiad Bwrdd Rhaglen Rhesymoli Asedau a Byrddau Prosiect cysylltiedig i sicrhau bod Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei gynrychioli ar lefelau priodol | Dd/B |
| | ii. Creu sylfaen ddata perchnogaeth tir gywir i'w defnyddio yn y prosiect hwn – diwygiadau i haen sylfaen rhydd-ddaliad sydd ond 95% yn gywir. | Awst 2023 |
| *2. Ecosystem Wydn:*<br>*Adfer, creu a chysylltu bioamrywiaeth a chynefinoedd yn gynaliadwy trwy wella tir sy'n eiddo i'r Cyngor a thir cyhoeddus.* | i. Gweithgor i sefydlu'r potensial i wella carbon / hinsawdd / bioamrywiaeth ein tir (cysylltu â 1.i) | Ebrill 2023 |
| | ii. Mapio troshaenau o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar sylfaen ddata perchnogaeth CDC gywir a grëwyd yn (1.iii) i nodi seilwaith gwyrdd sylweddol | Rhagfyr 2023 |
| | iii. Creu fformat cynllun rheoli safonol ar gyfer yr holl dir y mae CDC yn berchen arno ac yn ei reoli i nodi cyfleoedd i blannu coed | Rhagfyr 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| | iv. Dylid adolygu a diwygio CCA bioamrywiaeth a datblygu i gynnwys gwaith sy'n digwydd dros y 3 blynedd nesaf a hyd nes y cyhoeddir y CDLlN | Mawrth 2024 |
| | v. Cynhyrchu adolygiad dros dro (blynyddol) o adroddiad Adran 6 | Mawrth 2024 |
| *3. Coed a Choetir:*<br>*Gwella iechyd pobl, ansawdd yr amgylchedd, lleihau a dal carbon drwy reoli a chynyddu coed a choetir Casnewydd yn gynaliadwy.* | i. Plannu 20 o goed y flwyddyn | Mawrth 2024 |
| | ii. Adolygu ac ailgyfrifo data llinell sylfaen o frigdwf coed gan ddefnyddio gwybodaeth gywir o'r awyr | Rhagfyr 2023 |
| | iii. Cwblhau a chyhoeddi Strategaeth Coed Dinesig | Rhagfyr 2023 |
| | iv. Adolygu, diweddaru a chyhoeddi polisi coed CDC a diwygio a diweddaru gwefan CDC | Hydref 2023 |
| | v. Ymgymryd ag asesiad ward o'r tir 'arall' mewn perchnogaeth i nodi cyfleoedd plannu coed, lleiniau ymyl ffordd, pocedi a thir dan reolaeth arall. | Rhagfyr 2023 |
| *4. Mannau Gwyrdd Trefol:*<br>*Cynyddu seilwaith gwyrdd y tir cyhoeddus dinesig i leihau anghydraddoldebau amgylcheddol, er buddion lluosog adferiad natur, iechyd a lles pobl, addasu'r hinsawdd, lliniaru llifogydd, lleihau carbon a darparu aer glân.* | i. Seilwaith gwyrdd – gwelliannau i ardal gyhoeddus canol y ddinas drwy gyflwyno seilwaith gwyrdd mewn pum lleoliad | Rhagfyr 2023 |
| | ii. Parciau poced – manylion datblygu a dylunio tri safle parc poced o asesiad seilwaith gwyrdd | Mawrth 2024 |
| | iii. Plannu blodau gwyllt/coed – cynnal a chadw safleoedd peillio sy'n gyfeillgar i wenyn er mwyn helpu i ddal carbon | Awst 2024 |
| | iv. SDCau – cwblhawyd cynlluniau SDCau pellach yng nghanol y ddinas | Hydref 2023 |
| *5. Llifogydd* | i. Datblygu strategaeth ddraenio gynaliadwy ar gyfer Casnewydd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. | Mehefin 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| *Cynyddu gwytnwch o ran yr hinsawdd a lliniaru yn erbyn llifogydd ledled y ddinas gan ddefnyddio ystod o fesurau gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd naturiol.* | ii. Diweddaru cynllun a strategaeth rheoli perygl llifogydd yn unol â'r strategaeth genedlaethol. | Mawrth 2024 |
| | iii. Gwneud cais am gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau wrth iddo ddod ar gael | Mawrth 2024 |
| | iv. Ymchwilio i unrhyw broblemau gydag asedau sy'n bodoli eisoes a diweddaru'r cronfeydd data asedau llifogydd | Mawrth 2024 |

## 7.4 Trafnidiaeth a Symudedd

| *Maes Blaenoriaeth* | Cam Gweithredu: | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1. *Milltiroedd Busnes (Llwyd) a Chymudo Staff:* *Lleihau allyriadau carbon gan gymudo gweithwyr a milltiroedd llwyd, drwy annog gweithio ystwyth, teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn.* | i. Lleihau teithiau cymudo unigol mewn car drwy weithredu mentrau newydd a newid ymddygiadol | Mawrth 2024 |
| | ii. Cynyddu cyfranogiad mewn dulliau teithio llesol gan gynnwys beicio, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus | Mawrth 2024 |
| | iii. Datblygu a gweithredu cynlluniau teithio cynaliadwy ar gyfer safleoedd allweddol y Cyngor, gan gynnwys ysgolion (cymorth posibl gan Sustrans) | Mawrth 2024 |
| | iv. Darparu beiciau pedlo a thrydan i staff gynnal ymweliadau ac archwiliadau safle fel rhan o fflyd y Cyngor – cyswllt posibl â chynllun llogi beiciau ledled y ddinas drwy Burns | Mawrth 2024 |
| | v. Ymgymryd ag arolwg staff i ddeall ymddygiadau cymudo a theithio | Mehefin 23 |

| | | |
|---|---|---|
| **2.** *Fflyd:*<br><br>*Lleihau allyriadau carbon y Cyngor drwy symud i fflyd cerbydau allyriadau isel iawn.* | i. Cynhyrchu cynllun amnewid y fflyd a chyfrifo'r gost o drosglwyddo i fflyd ULEV yn gyfan gwbl | Mawrth 2024 |
| | ii. Dechrau adrodd ar nifer y milltiroedd trydan sy'n cael eu gyrru o gymharu â'r milltiroedd confensiynol a'r manteision sy'n deillio o hyn | Mawrth 2024 |
| | iii. Llunio cynllun ar gyfer trydaneiddio yr 11 fan diesel sy'n weddill | Mawrth 2024 |
| | iv. Gweithredu o leiaf 1 ysgubwr trydan | Mawrth 2024 |
| **3.** *Seilwaith Pwyntiau Gwefru*:<br><br>*Cynyddu capasiti gwefru ar draws safleoedd y Cyngor.* | i. Cyflwyno mannau gwefru cerbydau fflyd yn y Ganolfan Ddinesig | Mawrth 2024 |
| | ii. Sicrhau bod gan bob ysgol sydd â cherbydau fflyd CDC, neu yr ymwelir â hi gan gerbydau fflyd CDC, naill ai seilwaith pwynt gwefru wedi'i osod neu gynlluniau i'w osod | Mawrth 2024 |
| | iii. Sefydlu proses i ganiatáu i staff dalu am ddefnyddio pwyntiau gwefru fflyd | Mawrth 2024 |
| | iv. Cynnal adolygiad ystad i ddod o hyd i leoliadau lle gellid gosod pwyntiau gwefru i breswylwyr | Rhagfyr 2023 |
| | v. Cynnwys canllawiau gwefru cerbydau trydan ym manyleb prosiectau adeiladu CDC | Rhagfyr 2023 |

## 7.5 Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gyrchwn

| *Maes Blaenoriaeth* | **Cam Gweithredu:** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| *1. Llinell Sylfaen y Gadwyn Gyflenwi Bresennol* | i. Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer allyriadau 50% uchaf ein gwariant ar gyfer 22/23 (47 o gyflenwyr). | Awst 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| *Ymarfer untro i sefydlu allyriadau ein cadwyn gyflenwi am flwyddyn waelodlin (21/22 neu 22/23) yn dibynnu ar argaeledd data.* | ii. Datblygu deunyddiau addysgol ar gyfer yr holl gyflenwyr presennol ynghylch lleihau carbon a chefnogi CDC i gyflawni carbon sero-net erbyn 2030. | Awst 2023 |
| | iii. Datblygu a chyhoeddi pecyn cymorth i gyflenwyr ddarparu data ar gyfer 22/23 ac ar gyfer 23/24. | Awst 2023 |
| | iv. Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer hanner gwaelod ein gwariant ar gyfer 22/23. | Awst 2023 |
| *2. Mesur a thargedu*<br>*Datblygu prosesau i gefnogi staff a chyflenwyr CDC i fesur a lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi ar gyfer 23/24 ac i'r dyfodol.* | i. Datblygu offeryn mesur i roi gwybodaeth fanylach am y meysydd ffocws. | Awst 2023 |
| | ii. Ymgysylltu â chyflenwyr strategol i chwilio am gyfleoedd i leihau allyriadau carbon yn ystod oes contractau. | Awst 2023 |
| 3. *Prosesau Sefydliadol ar gyfer Caffael*<br>*Datblygu a gweithredu proses i leihau dwysedd carbon pob caffaeliad y mae'r Cyngor yn ei wneud.* | i. Datblygu dogfennaeth a phrosesau i helpu i weithredu prosesau datgarboneiddio sydd wedi'u hintegreiddio ar hyn o bryd i Lefel 4 y Porth i bob pryniant Lefel 3 y Porth. | Mai 23 |
| | ii. Datblygu adrannau sy'n benodol i ddatgarboneiddio mewn dogfennaeth tendro a phorth i ymgorffori offeryn mesur a fanylir yn 2. uchod. | Mawrth 2024 |
| | iii. Archwilio goblygiadau ymestyn prosesau datgarboneiddio i mewn i Lefel 2 y Porth | Mawrth 2024 |
| *4. Gwasanaethau Cymdeithasol*<br>*Mae gwariant gofal cymdeithasol yn cynrychioli X% o'n gwariant blynyddol a X% o'n hallyriadau. Mae gan Lywodraeth Cymru ffocws penodol ar ddatgarboneiddio gofal cymdeithasol y bydd CDC yn ei ddilyn.* | i. Cyflwyno'r offeryn **adrodd** fesul cam i ddarparwyr gofal cymdeithasol CDC. | Awst 2023 |
| | ii. Ymgymryd ag archwiliadau datgarboneiddio o'r holl gartrefi gofal a fflydoedd a gomisiynir ac nas comisiynir i roi syniad o ble y gellir gwneud arbedion carbon ac ariannol. | Mawrth 2024 |

## 7.6 Ein Rôl Ehangach

| *Maes Blaenoriaeth* | **Cam Gweithredu:** | **Dyddiad** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| *1. Gwastraff:*<br><br>*Lleihau allyriadau carbon o reoli gwastraff er mwyn bod yn ddinas a chenedl ddiwastraff erbyn 2050.* | i. Cynyddu'r gyfradd ailgylchu i 70% | Mawrth 24 |
| | ii. Cynnwys camau gweithredu newid yn yr hinsawdd / datgarboneiddio ychwanegol mewn Strategaeth Gwastraff ddiwygiedig | Mawrth 24 |
| | iii. Nodi atebion i gynyddu nifer y cerbydau casglu gwastraff trydanol yn ein fflyd | Mawrth 24 |
| | iv. Prosiect peilot i weithio gyda Chartrefi Dinas Casnewydd i gymell cyfraddau ailgylchu uwch mewn aelwydydd | Mawrth 24 |
| | v. Gweithredu Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i gael gwared ar blastigau untro o'n hystâd a gweithio i waredu plastigau untro o'n cadwyn gyflenwi | Mawrth 24 |
| | vi. Gweithredu system i gofnodi gwastraff a gasglwyd o safleoedd CDC yn fwy cywir. | Mawrth 24 |

# 8 ATODIAD C – RHESTR TERMAU

*Bioamrywiaeth* yw'r holl wahanol fathau o fywyd a welwch mewn un ardal—yr amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion, ffyngau a micro-organebau fel bacteria sy'n ffurfio ein byd naturiol. Mae pob un o'r rhywogaethau a'r organebau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal cydbwysedd a bywyd.

Mae *Ôl-osod Adeilad* yn golygu newidiadau i adeilad ar ôl iddo gael ei adeiladu i wella effeithlonrwydd ynni neu leihau'r galw am ynni.

*Llythrennedd Carbon* yw ymwybyddiaeth o gostau ac effeithiau carbon deuocsid sydd ynghlwm wrth weithgareddau pob dydd, a'r gallu a'r cymhelliant i leihau allyriadau, fel unigolion, cymunedau a sefydliadau.'

Mae *Carbon Niwtral* yn golygu allyriadau carbon sero-net.

***Dal a Storio Carbon*** yw'r broses o ddal a storio carbon deuocsid atmosfferig. Mae'n un dull o leihau faint o garbon deuocsid sydd yn yr atmosffer gyda'r nod o leihau newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang. Mae coedwigoedd a mathau eraill o blanhigion yn amsugno carbon deuocsid o'r aer wrth iddynt dyfu a'i drosi'n fiomas.

Cyflawnir *Economi Gylchol* drwy ddylunio cynhyrchion yn ddoeth gyda'u cylch oes cyfan mewn golwg, ail-ddefnyddio ac atgyweirio i ymestyn eu hoes ddefnyddiol, ac yna pan ystyrir bod eu hoes drosodd, ail-weithgynhyrchu i greu cynhyrchion newydd o hen.

Mae *Newid yn yr Hinsawdd* yn cynnwys cynhesu byd-eang a "sgil-effeithiau" cynhesu, e.e. rhewlifau'n toddi, stormydd glaw trymach, neu sychder amlach.

*Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd* yw osgoi a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu, dal a storio nwyon tŷ gwydr.

Mae Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd yn golygu newid ein hymddygiad a'n ffordd o fyw i ddiogelu ein teuluoedd, ein heconomïau, a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r *Argyfwng Hinsawdd* yn sefyllfa lle mae angen gweithredu ar frys i leihau neu atal newid yn yr hinsawdd ac osgoi difrod amgylcheddol na ellir ei wrthdroi o ganlyniad iddo.

*Ôl-osod Trylwyr* yw adeilad mawr neu gyfan sy'n cael ei ôl-osod i sicrhau adeilad ynni sydd fwy na heb yn sero-net

*Ecoleg* yw'r berthynas rhwng pethau byw a'u hamgylchedd.

*Ecosystemau* yw'r holl bethau byw mewn ardal a'r ffordd y maent yn effeithio ar ei gilydd a'r amgylchedd.

*Gwydnwch Ecosystem* yw gallu ecosystem i ymateb i aflonyddwch trwy wrthsefyll difrod ac adfer yn gyflym.

*Cynhesu Byd-eang* yw tymheredd arwyneb cynyddol y Ddaear ac mae'n un o symptomau'r newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl sy'n broblem lawer gwaeth.

Yr *Effaith Tŷ Gwydr* yw'r effaith y mae nwyon tŷ gwydr yn ei chael ar y Ddaear, sef cynhesu ei harwyneb.

*Nwyon Tŷ Gwydr (NTG)* yw'r haen denau o nwyon o amgylch y Ddaear. Mae'r nwyon hyn yn cynnwys nwyon tŷ gwydr sy'n ffurfio'n naturiol a'r rhai sy'n deillio o weithgarwch pobl, fel carbon deuocsid, methan, anwedd dŵr ac ocsid nitraidd.

Mae *Seilwaith Gwyrdd* yn rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaeth a nodweddion gwyrdd, sy'n gallu sicrhau ansawdd bywyd a manteision amgylcheddol i gymunedau. Mae'n cynnwys parciau, mannau agored, caeau

chwarae, coetiroedd, coed stryd, rhandiroedd, gerddi preifat, toeau a waliau gwyrdd, SDCau a phriddoedd.

*Adnoddau Naturiol* yw'r asedau naturiol neu'r deunyddiau crai a geir ym myd natur. Mae adnoddau naturiol y Ddaear yn cynnwys golau, aer, dŵr, planhigion, anifeiliaid, pridd, carreg, mwynau a thanwyddau ffosil.

*Atebion sy'n Seiliedig ar Natur* yw camau gweithredu i ddiogelu, rheoli'n gynaliadwy, ac adfer ecosystemau naturiol ac wedi'u haddasu sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol yn effeithiol ac yn ymaddasol, gan ddarparu lles dynol a manteision bioamrywiaeth ar yr un pryd.

Mae *Sero-Net* yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng swm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a'r swm a dynnir.

*Caffael* yw'r weithred o brynu nwyddau neu wasanaethau.

Mae *Cwmpas 1:* Allyriadau Uniongyrchol yn dod o ffynonellau sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu rheoli ganddo gan gynnwys allyriadau o'n fflyd peiriannau a cherbydau a thanwydd.

Mae *Cwmpas 2:* Allyriadau Anuniongyrchol yn dod o gynhyrchu trydan a gwres a brynir. Mae'r ynni'n cael ei gynhyrchu mewn mannau eraill, ond fel defnyddiwr mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr allyriadau hyn.

Mae *Cwmpas 3: Allyriadau Anuniongyrchol* yn dod o ffynonellau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor ac nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol ganddo; fodd bynnag, maen nhw'n gysylltiedig â'n gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys allyriadau o'r gadwyn gyflenwi, fel nwyddau yr ydym wedi'u prynu a gwasanaethau yr ydym wedi'u rhoi ar gontract allanol. Mae hefyd yn cynnwys allyriadau o'r dŵr a ddefnyddiwn, ein gwasanaethau gwastraff, gweithwyr yn cymudo a theithio busnes.

***Solar Ffotofoltäig*** yw cynhyrchu trydan gan ddefnyddio ynni o'r haul. Mae paneli solar modern yn cynhyrchu trydan o olau dydd ac nid oes angen golau haul uniongyrchol arnynt, er bod mwy o drydan yn cael ei gynhyrchu ar ddiwrnodau heulog.

Diben ***Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)*** yw rheoli dŵr stormydd yn lleol, i ddynwared systemau draenio naturiol ac annog ei ymdreiddiad a'i driniaeth oddefol. Diben SDCau yw rheoli peryglon llifogydd a llygredd sy'n deillio o ddŵr ffo trefol a chyfrannu lle bynnag y bo modd at brosesau gwella'r amgylchedd a chreu lleoedd.

*Caffael Cynaliadwy* yw proses trwy ba un y mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan sy'n creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Mae'n ystyried canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr hyn a gaffaelir trwy bob cam o'i gylch oes. Mae hyn yn cynnwys ystyried dylunio, echdynnu adnoddau a chyrchu, gweithgynhyrchu a chynhyrchu, cludo, darparu gwasanaethau, gweithredu a chynnal a chadw, ailddefnyddio, ailgylchu a gwaredu. Mae hefyd yn ymwneud â chwestiynu am pa un a oes angen prynu o gwbl. Mae hefyd yn ystyried gallu cyflenwyr i fynd i'r afael â'r canlyniadau hyn trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan.

*Opsiynau Trafnidiaeth Gynaliadwy* yw cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau trydan. Nid yw pob opsiwn yr un mor gynaliadwy â'r llall.

Mae Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfatebol ($tCO_2e$) yn fesur a ddefnyddir i gymharu'r allyriadau o wahanol nwyon tŷ gwydr yn seiliedig ar eu potensial cynhesu byd-eang. Er enghraifft, potensial cynhesu byd-eang methan dros 100 mlynedd yw 21. Mae hyn yn golygu bod miliwn tunnell fetrig o allyriadau methan yn

cyfateb i 21 miliwn tunnell fetrig o garbon deuocsid.

Mae *Cerbydau Allyriadau Isel Iawn* yn gerbydau sy'n gollwng llai na 75g o $CO_2$ fesul km o'r egsôst